


Y STAMP

RHIFYN 6 - GAELAF 2018



MARIAN **BROSSCHOT** | SIÔN TEIFI **REES** | GWENI **LLWYD** | MARI **HUWS**
SIÔN TOMOS **OWEN** | CARYL **BRYN** | PAUL **EASTWOOD** | NERYS **BOWEN**



Siôn Teifi Rees
(tud. 8-9, 35)



Y STAMP

RHIFYN 6
GAEAF 2018

CYNNWYS

Golygyddol - Miriam Elin Jones	4
Cyfweliad - Paul Eastwood	6
Celf / Ymateb - Siôn Teifi Rees a Rhys Trimble	8
Y Labordy - Gruffudd Eifion Owen	10
Cyfweliad - Emyr Lewis, Angharad Dafis, Esyllt Lewis	11
Straeon Byrion - Mari Huws	14
Cerdd - Llio Maddocks	16
Celf - Karin Iréne Andersson	17
Ffotograffiaeth a Cherddi - Siôn Tomos Owen	18
Proses - Gweni Llwyd	20
Cerdd - Caryl Bryn	24
AilBobi Jones - Ann Barlow, Mary Sinclair, Gwen Màiri Sinclair	26
Cerdd - J. Sam Jones	27
Cartrefi Cymru 2.0 - Nerys Bowen	28
Cerdd - Nerys Bowen	29
Cerdd - Morgan Owen	30
Adolygiadau	
<i>Tipiadau</i>	31
<i>Llyfr Glas Nebo</i>	31
<i>Golau</i>	32
<i>Nostos</i>	33
<i>Codi Llais</i>	33
<i>Nansi Lovell</i>	34
<i>Adra</i>	34
Adnabod yr Artist - Siôn Teifi Rees	35
Adnabod yr Artist - Karin Iréne Andersson	35
Adnabod yr Artist - Marian Brosschot	36
Y Stampwyr	37

Hawlfraint © 2018 Y Stamp

Argraffwyd yn Nhal-y-bont gan
Y Lolfa

Golygyddion Grug Muse
Llŷr Titus
Miriam Elin Jones
Iestyn Tyne

Celf y Clawr Marian Brosschot

Dylunydd Iestyn Tyne

Barn awduron unigol a gyhoeddir
yn *Y Stamp*, ac nid o reidrwydd
rhai'r cylchgrawn a'i fwrdd
golygyddol. Gall cyfraniadau i'r
cylchgrawn hwn gynnwys rhegfeydd,
iaith gref a deunydd aeddfed ar
brydiau.

DIOLCH

I gynulleidfa astud Dramâu
Radio Y Stamp yn Theatr y Maes
Caerdydd, a chynulleidfa llawn
mor astud Llyfrgell Wrecsam fis
Hydref; i'r hysbysebwyd am eu
nawdd; I CHI, ddarllenwyr annwyl;
ac yn bennaf oll, i'r holl
stampwyr disglair sy'n eich disgwyl
rhwng y cloriau hyn.

ystamp.cymru // [@ystampus](https://twitter.com/ystampus) // facebook.com/ystampus

golygyddion.ystamp@gmail.com

GOLYGYDDOL MIRIAM ELIN JONES



Llun: Eliot Kerslake

DYW RHAI POBL DDIM HYD YN OED YN DARLLEN, AC MAE HYNNY’N OKAY ...

Dwi’n cael thrill o feddwl y bydd ambell gopi caled o’r *Stamp* yma’n mynd yn syth i’r bin ailgylchu wedi i rywun ei ddarllen. Ambell un arall yn cael ei daflu i’r tân. Dwi’n profi’r wefr ryfedda’ yn treiddio drwy nghorff o sylweddoli nad yw’r geiriau sydd mewn du a gwyn ar y dudalen brint mor sanctaidd â hynny wedi’r cwbl.

Traddodiad llafar oedd y trad-dodiad llenyddol Cymraeg yn wreiddiol, gyda’r Mabinogi a’r cerddi cynnar yn cael eu cofnodi ganrifoedd yn ddiweddarach. Heddiw, mae’r cyfryngau rydym yn eu defnyddio yn fwy amrywiol nag erioed o’r blaen. Ynghyd â’r gyfrol neu rifyn print traddodiadol, mae’r we – boed ar wefan, blog, drwy ddelwedd neu fideo – yn rhoi cyfleoedd newydd i lenorion fynegi a denu cynulleidfa.

O’r dechrau’n deg, cyhoeddiad ar-lein oedd gweledigaeth *Y Stamp*. Ehangwyd y weledigaeth honno’n rhifyn print wrth bwysu a mesur a gweld bwch

yn y farchnad. Yr hyn a wna rhifyn print i ni gyda’r *Stamp* – ynghyd â rhoi’r cyfle cyntaf yna i awdur weld ei waith neu ei gwaith MEWN PRINT (carreg filltir bwysig i nifer o lenorion ar ddechrau gyrfa) – yw rhoi cyfle i ni barhau i hyrwyddo gwaith y wefan hefyd.

Mae nifer o feirdd ac awduron eisoes wedi dechrau cwestiynu diben gwerthu cyfrolau print o gwbl – mae Eurig Salisbury yn un sydd wedi bod yn agored iawn am hynny – a gwerthiant llyfrau Cymraeg a Chymreig, a’r diffyg darpariaeth e-lyfrau yn y Gymraeg wedi dod dan y lach yn bur ddiweddar. Roedd gweld gwaith Gruffudd Eifion Owen yn lledu dros y we drwy’r fideo a gynhyrchwyd gan Hansh yn brofiad a agorodd llygaid nifer, gyda mwy o bobol nag erioed yn ymateb i awdl fuddugol y Steddfod eleni. Doedd hi ddim bellach yn gerdd i’w chadw rhwng clawr y Cyfansoddiadau a Beirniadaethau ar silff lyfrau selogion y ‘Steddfod yn unig, ond yn

gerdd roedd trydarwyr brwd yn ei darllen, ei rhannu a’i thrafod.

Yn ddiweddar, rwyf wedi buddsoddi mewn Kindle, er hwylustod yn fwy na dim, i’w gario ar bythefnos o wyliau ac arbed lle yn y tŷ. Ro’n i’n o’r bobol yna oedd yn barod i ddweud ‘Ow, ond gei di ddim o’r un profiad o gydio mewn llyfr a’i ddal yn gadarn yn dy ddwylo?’ yn wreiddiol, a na, gaf i ddim mo’r profiad hwnnw, ond rwy’n dal llechen yn fy llaw ac yn manteisio ar allu ei slipo’n haws i mewn i’n handbag er mwyn ei garto o le i le. Rwy’n dal i allu ymgolli’r un mor hawdd i stori, er bod y weithred ei hun o wneud hynny’n bur wahanol.

Oni all bobol ymgolli mewn stori dda neu darllen barddoniaeth mewn manau y tu hwnt i’r gyfrol brintiedig? Ydych chi wedi rhoi cynnig ar audiobook o’ch gwirfodd, neu ydych chi’n nabod rhywun sy’n ddibynnol ar wasanaeth llyfrau llafar i’r deillion er mwyn mwynhau llenyddiaeth? Yn ei dractor mae fy

nhad yn cael ei unig flas ar lyfrau, wrth i Radio Cymru ddarparu fersiynau o gyfrolau Cymraeg.

Mae 'na bobol nad ydynt yn darllen, a chmod beth, mae hynny'n OK.

Bosib bod gweud hyn ar friggolygyddol rhifyn print o gylchgrawn llenyddol dwtsh yn eironig. Ond mi fyddai'n ffôl anwybyddu'r ffaith bod 'na ffyrdd eraill, amgen o rannu llenyddiaeth. Ydyn, rydym wrthi'n tyfu Cyhoeddiadau'r Stamp – mae cerdd o gyfrol-ar-y-gweill Caryl Bryn yn ymddangos yn y rhifyn hwn – ond mae ein gwaith ar-lein yn parhau'r un mor bwysig. Ar y we drwy'r fersiwn PDF mae nifer ohonoch yn cyrraedd y gwaith rydym yn ei gyhoeddi, wedi'r cwbl.

Oes 'na gyfleoedd pellach i'r Stamp fanteisio ar yr hyn y mae cyhoeddi ar-lein yn ei gynnig? Mae cynnwys fel rhestrau darllen a chyfweiliadau wedi profi'n hynod boblogaidd ar-lein. Maent yn bethau sydd wedi derbyn ymateb uniongyrchol, diolchiadau, brwdfrydedd a llawer o ail-drydar a rhannu dros gyfryngau cymdeithasol – nid, wrth gwrs, mai drwy ymatebion fel 'ny'n unig mae modd mesur ymateb.

Rydym hefyd wedi dechrau troi at adolygiadau fideo ac mae 'na le i ddatblygu ar boblogrwydd ein dramâu radio – er, mae'n rhaid pwysleisio, bod 'na ddiffyg arbenigedd gan olygyddion Y Stamp er mwyn gwneud y gwaith yma. Er ein bod ni'n fenter DIY ac yn cydnabod yn gwbl agored i'n cyfrannwyr a'n darllenywyr ein bod ni, mae 'na gyfyngiadau ymarferol (er tegwch i bawb) i garedigrwydd pobol. Beth os oes gennych for-gais i'w dalu? Diwedd y gân, eto fyth, yw'r geiniog. Gallwch chi werthu cyfrol brint – cael grant gan y Cyngor Llyfrau hyd yn oed a derbyn cold, hard cash amdano – ond nid yw mor hawdd gwerthu gwaith fel arall. Oes 'na alw am grantiau i ariannu prosiect ar-lein? Oes modd ennyn digon o gefnogaeth i brosiect a gwneud elw o hysbysebu, petaech yn gwneud yn ddi-grant?

Mae beirdd fel Karen Owen ac Aneirin Karadog wedi rhannu a gwerthu eu gwaith ar ffurf cryno ddisgiau. Mae prosiect Rhithganfyddiad Efa Lois a Morgan Owen – dau sy'n enwau cyfarwydd ar wefan a rhwng cloriau'r Stamp – yn gwneud yn dda drwy gyfuno delweddau a barddoniaeth i'w gwerthu, a dyma hefyd mae teulu *twt lol* wedi ei wneud (darllenwch ein cyfweiliad â nhw ar dudalen 11). Beth felly am fwy o brosiectau neu ymgyrchoedd tebyg? Gwneud mwy i drefnu ac ennyn cynulleidfa i ddigwyddiadau. Cyweithiau rhwng llenorion ac artistiaid, llenorion a cherddorion? Oes mwy o le i Fardd y Mis Radio Cymru a dramâu a darlleniadau radio? Beth am roi barddoniaeth ar grysau-T a'u gwerthu? Cyhoeddi stori ar-lein a hwpo botwm PayPal ar waelod y dudalen a derbyn cyfraniadau? (Mae 'na un o'r rheini ar waelod gwefan Y Stamp, hint hint.) Bosib bod y llith hwn yn canolbwyntio'n ormod ar arian, a bod 'na le hefyd, wrth gwrs, i fentergarwch rhad-ac-am-ddim. Ond oes angen i ni newid ein hagwedd? Gweld gwerth i bob math o blatfform er mwyn rhannu llên, nid jyst drwy ei brintio ar dudalennau a'i werthu gyda chlwr smart.

I rai, mae grym y gair ar bapur yn gryfach na dim byd arall, ond os ydym angen i lenyddiaeth oroesi, mae'n rhaid iddo gyrraedd bob man. Mae'n rhaid iddo gyrraedd pobol na fyddent yn mynd yn agos at siop lyfrau, pobol sy'n teimlo'n swp sâl o glywed yr arogl llyfrau ail-law sy'n wefr i eraill, i bobol syrffedodd ar orfod darllen nofel mewn dosbarth yn yr ysgol a theimlo nad oedd 'na fuck all yn y weithred yn eu temptio nhw, pobol sy'n rhy brysuri i setlo i eistedd a darllen nofel.


Ac o chwilio'n ddigon caled, mae modd i'r darllenywyr mwya' brwd ddod o hyd i lenyddiaeth tu hwnt i gyfrolau a chylchgronau print hefyd.

Er nad odw i'n ffan o'r byd cyn-ganeddol yn bersonol, mae 'Llinell Gyn-ganeddol Ddamweiniol y Mis' Podlediad Clera wedi agor fy llygaid i gymaint o

farddoniaeth sy'n yr hysbysebion mwya' cyfalafol. Clywch rym cyflythrennu ymhob man! O ystyried hynny, mae angen dathlu bod llenyddiaeth yn cyrraedd bob man, yn hytrach na swatio'n dynn gyda'n gilydd yn yr un hen gylchoedd yn cael sgysgiau 'mawr' am werth hyn a diffyg gwerth y llall a 'safonau'. Mae gan ddarn o lên sy'n cael ei ddewis yn destun gosod i barti cydadrodd yr un gwerth â darn nad yw'n weddus ar gyfer y ffasiwn lwyfan, ond sydd 'di cael grŵp o teenagers mewn ysgol gyfun ddwyieithog i drafod. Mater o lwc yn gymysg gyda thalent a chreffft yw'r busnes ennill cadeiriau a dod yn destun gosod mewn 'steddfod neu ysgol, wedi'r cwbl. Mae'n dibynnu'n llwyr ar eich cynulleidfa, ac mae 'na bob math o gynulleidfaoedd allan yno ar gyfer pob math o feirdd, a sawl cyfrwng i'w ddefnyddio bellach i gael gafael arnyn nhw.

Felly, os ydych chi'n mynd i drysori eich copi o'r Stamp a'i gadw am byth bythoedd (er yn ôl y Bwdydd does 'na fuck all yn para am byth a rhyw ddiwrnod fydd 'na aelod iau o'ch tylwyth yn taflu'r copi hwn i'r bin gan rowlio llygaid a mynd 'what a load of crap' unwaith i chi farw a fyddwch chi ddim callach anyway), meddyliwch am eraill sydd o bosib yn methu gweld bod llenyddiaeth yn perthyn iddyn nhw. Gofynnwch – pam? A wnaethpwyd digon i ddod o hyd iddynt? Lle allwn ni fynd i rannu llên, rhannu celf, ac i gyrraedd pobol nad ydyn nhw yn eu cyrraedd ar hyn o bryd? Ac er mwyn taflu un cwestiwn ola' i'r pair: a ddylid derbyn bod 'na bobol nad ydynt am i lenyddiaeth eu cyrraedd anyway? Fel 'sgrifennwyr, ynghyd â dathlu cyhoeddi mwy o lyfrau, mwy o bethau, a gweld mwy o brosiectau ac ymgyrchoedd newydd, onid oes 'na le i ddathlu darnau nad ydynt yn cael eu 'cyhoeddi' hefyd?

Llanpumsaint ac Ynysmaerdy
Tachwedd 2018



Cofiwch fod rhifyn arbennig Haf 2018 o'r Stamp sy'n canolbwyntio ar fydd theatr yng Nghymru yn dal i fod ar gael o'r wefan fel PDF am ddim i'w lawrlwytho neu fel copi print i'w archebu. Mae'r holl ôl-rifynnau eraill i'w cael yno hefyd.

Yn cynnwys gwaith newydd gwreiddiol gan STEFFAN DAFYDD, MELANGELL DOLMA, CARL RUSSELL OWEN, WYN MASON, ANNES ELWY, EDDIE LADD, LOIS LLYWELYN, TELERI LEA, ERIN MADDOCKS, MORGAN OWEN, IAN ROWLANDS, EFA DYFAN, LLIO MAI, ALED LEWIS EVANS ac eraill.

DYFODIAITH: PAUL EASTWOOD YN SGWRSIO Â'R STAMP

Mae Paul Eastwood yn artist a ddaw o Wrecsam yn wreiddiol, ac mae ei gylch o a chylch y Stampwyr wedi croesi unwaith neu ddwy. Aeth Y Stamp ati i'w gyfsweld er mwyn dod i'w nabod fymryn yn well ac i gael cip ar yr hyn mae o'n gweithio arno ar hyn o bryd ...

Y lle cyntaf i ddechrau dwi'n meddwl ydi holi be ydi Dyfodiaith a pham mynd ati i weithio ar y prosiect yma?

Mae yna ychydig o wahanol olygiadau i 'dyfodiaith'. Y gyntaf yw iaith y dyfodol a'r llall yw iaith dyfodol (iaith i ddod neu darddu o le arall). Fel siaradwr Cymraeg ail iaith sydd ddim yn dod o deulu hanesyddol Cymraeg dwi eisieu dod o hyd i straeon a geirfa fy hun. Mae dyfodiaith yn cynnig y cyfle i feddwl trwy ysgrifennu / ymchwilio i hanesion amgen am iaith, huniaith a diwylliant – trwy ddefnyddio geiriau anarferedig, sillafiadau amgen ac archwilio etymoleg yr iaith Gymraeg.

Be yn dy feddwl di ydi bwriad Dyfodiaith? Oes 'na fwriad? Does yna'm rhaid cael un, wrth gwrs.

Meddwl am ysgrifennu testunau / greu gwaith celf i gyhoedd sydd ddim eto yn bodoli, efallai. I ystyried arallrwydd: rwy'n aml yn meddwl fy mod i'n ysgrifennu i siaradwyr di-Gymraeg. Mae gwrandao ar iaith dramor yn cynnig y cyfle i fynd i mewn i fyd arall. Yn yr un modd, pe byddech yn gwyllo ffilm mewn iaith dramor, os oedd y ffilm cael ei throsleisio, byddech yn colli'r holl naws gynnil. e.e. traw, rhythm ac acen. Dwi hefyd yn hoffi y syniad y gall iaith greu bydau ffuglennol.

O ran yr ymchwil a'r gwaith ieithyddol sydd wedi mynd i fewn i Dyfodiaith, mae hi'n taro fel prosiect rhyngddisgyblaethol iawn - oedd hynny yn rywbeth oedd gen ti mewn meddwl o'r cychwyn neu oedd o'n rhywbeth wnaeth ddatblygu dros amser?

Dydy hyn ddim yn gant y cant gywir, ond does gen i neb i siarad efo yn yr iaith Gymraeg. Beth ydy iaith heb y cyfle i sgwrsio a chyfleu syniadau? Rwy'n

rhwystredig! Roeddwn am greu prosiect sy'n dod ag arbenigwyr at ei gilydd i ddelio â materion cyfoes ynglŷn â iaith a hunaniaeth. 'Gadewch yr iaith i siarad' - i weld beth sy'n gallu ddod allan o'r sefyllfaoedd yma.

Rwy'n edmygu gwaith Dr Iorwerth C Peate, yn enwedig creu Sain Ffagan. Mewn cyfweiliad, mae Dr Peate yn sôn am greu sefydliad i athrawon ddysgu ohono, er mwyn gallu cymryd y wybodaeth honno yn ôl i'w cymunedau. Ni chredaf fod hyn wedi'i wireddu'n llawn. Ond nid yw pwnc casgliad gwerin yn cael ei ystyried yn ffafriol o ran y sîn gelf gyfoes. Rwy'n bersonol yn meddwl bod llawer o arwyddocâd diwyllianol i'r casgliad hwn. Ond, mae dod o hyd i ffyrdd o briodi hwn i bryderon cyfoes yn anodd. Roedd y syniad o ganolfan ddysgu yn taro cord yn fy methodoleg; dod â phobl at ei gilydd i siarad a thrafod syniadau. Rwy'n aml yn meddwl am fy ngwaith fel 'stand-ins' ar gyfer trafodaeth – nid oes rhaid i chi garu yr hyn yr wyf yn ei wneud, cyn belled â'i fod wedi gwneud i chi gael trafodaeth. Rhywbeth yr ydych yn ei gymryd gyda chi i hirdrigo y tu mewn i chi ymhell wedi'r digwyddiad.


Oedd yr elfen sain yn bwysig? Be ydi o am glywed iaith sydd yn rhoi grym iddi hi?

Rwy'n credu fy mod i wedi crybwyll hwn yn fyr uchod eisoes. Mae cael recordiad sain yn galluogi mynediad i bobl eraill at y gwaith, hyd yn oed os nad ydynt yn ei ddeall. Mae gennyf ddi-ddordeb mewn ieithoedd diflanedig, yn enwedig y rheini sydd wedi bod yn ddigon ffodus i gael eu cofnodi. Cofia, dydw i ddim yn darllen y sgrïpt / ymson allan fy hun, dwi'n cydweithio gydag actorion i ddod o hyd i'r ffordd orau i leisio'r gwaith.

Dydw i ddim yn meddwl fod y gwaith dwi'n ei greu ar gyfer ei ddarllen ond i'w glywed ar ryw fath o lwyfan. Ydych, dach chi'n medru darllen y gwaith, ond y bwriad creiddiol oedd medru clywed y geiriau yn fyw. Eto, mae dod o ardal ble dach chi'n gallu mynd am wythnosau heb glywed Cymraeg yn cael ei siarad wedi creu rhai o fy mhenderfyniadau o ran y gwaith.

Mae rhan o Dyfodiaith wedi ymddangos yn arddangosfa 'dim ond geiriau ydi iaith' sydd yn ddatganiad dadleuol yng ngolwg rhai efallai. Lle mae Dyfodiaith yn ffitio i fewn i ddatganiad felly?

Mae Dyfodiaith yn mynd ati i geisio archwilio iaith, ei dynnu ar wahân, ei ddangos, ei drin a'i ymestyn yn ffurfiau anghyfarwydd. Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arddangosfa hon. Gyda thrawstoriad o



artistiaid sy'n gweithio yng Nghymru heddiw sy'n ymdrin â phwnc iaith yn eu gwaith, mae'n ymwneud â fframwaith – mae iaith yn un offeryn cyfathrebu. Mae'r teitl, a ddywedwyd yn wreiddiol gan Dafydd Elis Thomas, yn rhoi cyfle inni feddwl – beth yw iaith? Nid oes gen i syniad os cafodd ei gymryd allan o gyd-destun, ond roeddwn i eisiau cymryd rhan yn y sgwrs. Mae'r celfyddydau'n ymwneud ag ymgysylltu â syniadau, hyd yn oed os yw'r pwnc yn anodd.

Ti wedi gweithio ar brosiectau fel *Segrgrair* yn y gorffennol. Wyt ti'n meddwl fod yna rywbeth yn 'sanctaid' ym meddwl rhai pobl am iaith a bod hynny'n atal arbrosi?

I ddechrau gyda, nid oes angen amgueddfeydd / orielau lle mae gwrthrychau marw yn gorwedd, ond Palasau o fyfyrion diwyllianol ac ysgogi trafodaeth. Mae'r Gymraeg yn fyw. Nid yw iaith byth yn sefydlog ac mae'n newid yn gyson. Gallwch chi weld hyn eich hun trwy edrych ar y gwahaniaeth yn y Gymraeg, rhwng y Canol a'r Cyfoes. Gallai hyn fod yn bwynt da i drafod yr hyn a olygwn trwy ddefnyddio'r gair 'iaith'. Nid ydym yn canolbwyntio'n unig ar yr iaith Gymraeg, ond ar fecanwaith iaith ac yn benodol yn y prosiect hwn ieithoedd lleiafrifol o Ynysoedd Prydain. Sut rydym yn mynd ati i ddefnyddio iaith i gyfathrebu? Rwy'n gweld problem yng Nghymru heddiw, sef bod y Gymraeg yn cael ei gyfieithu i apelio at agenda wleidyddol. Dydw i ddim eisiau hyn. Rwyf am i bobl ysgrifennu am eu diddordeb yn eu hiaith eu hunain.

Yr wyf yn falch ein bod yn codi materion o 'Segrgrair'. I mi, roedd gan y gair sawl defnydd. Y cyntaf oedd i ddod o hyd i air sy'n gynhenid i'r iaith Gymraeg sy'n mynd tuag at awgrymu set o syniadau. Yn ail, gair na ellid ei gyfieithu yn rhwydd; ac yn drydydd i ddechrau defnyddio geiriau anarferedig er mwyn ein helpu i drafod cymhlethdod y gallai ein diwylliant ei wynebu, heb fenthycu o'r Saesneg bob tro – dewis arall yn lle 'hiraeth', sydd wedi cael ei or-drin ac wedi dod yn ddiystyr. Felly, roeddwn yn chwilio am eiriau newydd i siarad am Gymreictod / diwyllianau lleiafrifol. Yn anffodus, mae'r iaith Gymraeg wedi dod yn iaith academaidd i mi, nid iaith gartref. Felly, mae'n debyg bod fy holl cyfarfyddiadau gyda'r iaith yn dod drwy fframwaith chwilfrydig.

I mi un o'r llinellau mwyaf pwysig yn y darn a gafodd ei recordio oedd 'Dio'm ots os ti'm yn dallt'. Does yna'm rhaid esbonio pob dim, a does yna'm rhaid cael cerdyn bach gwyn wrth ymyl darn

o gelf. Ti wedi trafod hyn hefo fi o'r blaen – yda ni fel Cymry isio fframwaith newydd wrth feddwl am gelf?

Dwi'n teimlo fod hyn yn llifo fewn i'r cwestiwn nesaf – Mae arnom angen disgwrs newydd ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru – dod â phobl at ei gilydd a siarad mwy am syniadau a sut i'w cyflawni.

Ydi Dyfodiaith yn rhan o'r broses o greu meddylfryd gwahanol, Cymreig?

Rhwng ydi a nac ydi. Hyd yn oed os dwi'n medru siarad Cymraeg, dwi'n teimlo llawer sydd ar goll o fy nealltwriaeth o hanes a huniaeth y Cymry a'r iaith Gymraeg. Efallai, trwy brosiectau fel hyn, dydy hynny ddim mor wir rŵan. Ond trwy'r gwaith ymchwil a chwedd â phobl eraill rydw i wedi sylweddoli fod hyn yn gyffredin, felly'r cwestiwn yw sut i gylchredeg y wybodaeth hon ymhlith y boblogaeth. Diddym ein hunain oddi ar y drefn bresennol.

Rydym yn sefyll yn ein ffordd ein hunain. Rydym yn beio dylanwadau o'r tu allan, ond y gwir yw ein bod ni'n ofni penderfynu ar ein dyfodol ein hunain. Mae wedi bod yn eithaf anodd i gael y gefnogaeth ar gyfer y prosiect yma. Yr eironi yw nad yw prif gefnogwyr y prosiectau wedi bod yn siaradwyr Cymraeg. Rwy'n credu fod hyn yn crynhoi'r sefyllfa yng Nghymru, lle nad yw sefydliadau'n fodlon cymryd risg. Ac os yw'r prosiect yn gwyro o'r rhagnodedig, nid yw pobl yn deall. Rwy'n cael yr argraff fod pobl eisiau paentiadau o fynyddoedd, rhywbeth nad oes raid i chi feddwl amdano. Rwyf am adlewyrchu adlewyrchiadau cadarnhaol a negyddol ein cymdeithas, hyd yn oed os oes rhai gwirioneddau sy'n anodd eu llyncu.

Mi oedd y syniad o ynys, neu fan penodol yn bwysig wrth fynd ati, neu llong ofod hyd yn oed, fel Afro-futurism mae Cambro-futurism neu Cymru-ddyfodoliaeth yn dod yn fwy o beth - ydi Dyfodiaith yn ffitio i fewn i hynny? Hynny ydi, creu rhyw fyd arall sydd yn dychmygu Cymru heb ddylanwadau allanol?

Er fy mod yn ymwybodol o'r ddau, rwy'n credu ei fod yn anodd iawn cymharu Afro-futurism gyda Cambro-futurism. Rwy'n credu bod ganddynt ddau hanes hollol wahanol. Rhywbeth y byddwn i'n ei ddweud yw bod Dyfodiaith yn mynd tuag at geisio darganfod ein llwybr ein hunain. Mae fframwaith adrodd storïau yn galluogi i rywun ymholi a chwestiynu, gan ei fod yn creu lle i gyflwyno amheuaeth. Rwy'n meddwl am fy

ngwaith fel rhyw fath ar draethawd fideo, lle mae cyfres o ragdybiaethau yn cael eu cyflwyno a'u cwestiynu drwy naratif, a ble mae'r cymhorthyddion gweledol yn cynorthwyo'r dehongliad o'r syniadau hyn.

Rwy'n hoffi'r berthynas rhwng yr gair ynys ac ynysu, gair sy'n dod o'r Lladin 'insula'. Gan ddefnyddio ynys ac ynysu fel cysyniad i greu lle ac iaith ffuglennol, gyda hanesion amgen. Dwi ddim eisiau datgelu gormod, ond mae hyn wedi gwneud i mi feddwl am ysgrifennu'r 'Ynys' fel cymeriad gyda hunanymwybyddiaeth.

Mae'r ymadrodd 'no man is an island' gan John Donne yn mynegi'r syniad fod pobl yn gwneud yn wael pan yn ynysig oddi wrth eraill a bod angen iddynt fod yn rhan o gymuned er mwyn ffynnu. Mae hyn yn dod â ni yn ôl i weithio gydag arbenigwyr o wahanol feysydd.

Mae fy ngwaith wedi cael ei ysbrydoli'n fawr gan lyfr o'r enw *Utopia* gan Thomas More. Rwy'n synnu na chafodd y llyfr hwn ei gyfieithu i'r Gymraeg. Rhaid imi gyfaddef bod gen i obsesiwn â diwylliant Siapaneaidd - ei arferion, defodau ac arteffactau diwyllianol, ac yn enwedig y naratif o ddewis cael ei gau i weddill y byd am gyfnod hir.. Mae'r rhain wrth gwrs yn fannau cychwyn ar gyfer ymchwil a chynhyrchu syniadau.

Beth ydi'r cam nesaf felly?


Bydd llawer o ganlyniadau newydd ers derbyn cefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Datblygu sgript newydd ac ehangu ar yr eirfa a ddatblygwyd ar gyfer 'Tafod Dadweirled' gyda chymorth a chydweithrediad Llŷr Titus. Yna, gweithio gyda'r cyfansoddwr Samuel Barnes i ysgrifennu trefniant cerddorol newydd. Hefyd, dwi'n gwneud rhai delweddau newydd i gyd-fynd â'r gwaith cadarn, rwy'n gweithio gyda rhywun i greu animeiddiad CGI a gwneuthurwr gwisgoedd ar gyfer perfformiad byw a gwaith fideo. Rwy'n edrych ymlaen at weld yr elfennau gwahanol yn dod at ei gilydd. Cynhelir yr arddangosfa yn oriel Chapter rhwng yr 8fed o Chwefror a'r 10fed o Fawrth 2019.

Hefyd, bod yn niwsans. Creu carfan gadarnhaol a blaengar i gefnogi allbwn creadigol. Helpu'r genhedlaeth nesaf o artistiaid i lwyddo a chymryd risgiau. **Datgysylltwch eich hunain o'r hen sefydliadau!**

>> paul-eastwood.net

52 GAIR RHYS TRIMBLE 52 LLUN SIÔN TEIFI REES

gomach



gwellig



geri



elgeth

ystelff



edif



cabwllt



marwerydd



ad-ddyn



trallod



hell



iewaint

gwynddas



llefair



rhybued



ymread



ymswrn



trenghidydd



llesgethan



oerchwedl



cyfrbwn



cywres



eurog




menestr

Fel ym mhob rhifyn, gofynnwyd unwaith eto i fardd neu lenor ymateb i waith artist. Rhwng Gorffennaf a Medi eleni, bu'r artist Siôn Teifi Rees yn rhannu prosiect *blind drawing* ar ei gyfrif Instagram (@jezgym) - 52 portread o ffrindiau a chydabod a ddarluniwyd heb edrych ar y papur. Rhoddwyd cynnyrch y cyfnod yma yn nwylo'r bardd *avant garde* Rhys Trimble. Y canlyniad oedd 52 o eiriau hynafol i gyd-fynd â'r 52 darn ...



Hunan bortread - @jezgym



allwedd /// 52 gair am 52 llun

gwellig - dirmygedig
 gomach - coes
 geri - chwerw
 elgeth - gên
 ystelff - twpsyn
 edif - rheibus
 blydd - meddal *juicy*
 budo - pawb neu modryb
 osglgyrn - â chyrn canghennog
 plucan - manblu
 disymml - bonheddig
 cyfrwen - siriol
 di-gelc - agored

trallod - *tribulation*
 hell - dŵr hallt y môr
 cabwllt - ceiliog wedi'i sbaddu
 marwerydd - *deririum*
 iewaint - ieuenticid
 ad-ddyn - *wretch*
 ysglen - rhywogaeth, rhyw
 ysgylfiwr - sglyfath
 ulai - hydrogen
 carnbwl - trwsgl
 tripa - perfedd
 poc - cusan, sws
 diaill - digymar, *peerless*

gwynddas - piwis, *peevish*
 llefair - siaradus
 rhybued - dymuniad
 ymswrn - terfysg
 treghidydd - llofrudd
 ymread - cyarthrach rywiol
 llefr - cachgi
 llaprwth - hwlcyn, boi gwirion
 torpell - talpyn
 ysgyll - ysglyfaeth
 racw - acw
 fflwcs - sbwriel
 dadiain - disglair

cyfrwbn - *fully loaded*
 cywres - hwrn
 llesgethan - gwan
 eurog - euraidd
 menestr - *cup bearer*
 oerchwedl - newyddion drwg
 ysgre - ceffyl
 gwinau - brown
 gwyar - gwaed
 athwll - llawn tyllau
 goddyn - echel, *axis*
 blerwm - clebrwr, person blêr
 etewyn - *firebrand*

Y LABORDY

Dyma'r **LABORDY** yn ei ôl unwaith eto, gyda chyfle arall i rywun fentro y tu allan i'w maes arferol wrth greu. **Gruffudd Eifion Owen** enillodd gadair Eisteddfod Caerdydd eleni am ei awdl, 'Porth', ond beth ddigwyddai pe bai Gruff yn cael ei adael mewn ystafell wen, wag, heb dishws na phlaystation - dim ond hen gopi blêr o *Bobi a Sami* gan Wil Sam a phâr o siswrn? Dim ond un ffordd oedd o ffendio allan ...

Pan agorwyd yr ystafell, yng nghanol crybibion gweddillion *Bobi a Sami* roedd un darn o bapur di-lychwin, ac arno'r gerdd dorrydd arbennig hon.

Y SGWRS OLA'

Dyro 'wyall na heibio am funud
i ni gael sgwrs go gall...
Cloman 'di cloman i mi....
Rydw i am farw rwan....

Rhyfadd hefyd rhywsut...
Ma siŵr bod ni'n mwynhau'n hunan?
Swm i 'di licio mynd i'r môr.
Rydw i am farw rwan....

Does ganddon ni ddim ffrindia.
Niwsans ydi peth felly.
Petha pobol. Nid petha ni...
Rydw i am farw rwan....

Ma byw yn ddrud hiddiw....
Ti di cael dau afal
a dwinna di cael un Maer.
Rydw i am farw rwan...

Ma gynnon ni bob peth
Pawb arall wedi methu hi
a dim ond ni'n dau di gweld hi.
Rydw i am farw rwan....

Rwyt titha'n poeni twyt...?
Dwi'n licio rymar bîns...
Mae na losgi oddi mewn i mi
bob tro rwyt ti'n crio....

Rydw i am farw rwan...

GRUFFUDD EIFION OWEN

EMYR LEWIS/ANGHARAD DAFIS/ESYLLT LEWIS

TEULU **twl lol** YN SGWRSIO Â'R STAMP

Heblaw am fod yn poster boy i gyfraith gyhoeddus a gweinyddol yng Nghymru (yn ôl Google), mae Emyr Lewis hefyd yn fardd cynhyrchiol. Mae'n nhw'n dweud mai *twl lol* ydi ei drydedd, neu o bosib ei bedwaredd gyfrol (y mae peth anghysondeb yn y record ar y pwynt hwnnw). Beth bynnag am hynny, bu'n cydweithio gyda Angharad ei wraig ac Eyllt ei ferch wrth roi *twl lol* at ei gilydd, gyda Angharad yn ymgymryd â'r gwaith golygyddol ac Eyllt yn mynd ati i greu'r darluniau. Bu'r Stamp yn holi'r tri am y profiad o gydweithio ar greu cyfrol o farddoniaeth a lluniau.

O le ddaeth y syniad o weithio efo'ch gilydd ar gyfrol?

Emyr: Angharad a olygodd fy nghyfrol ddiwethaf (*Amser Amherffraith/Dysgu Deud Celwydd yn Tsiec*) ac mi weithiodd hynny'n ardderchog. Yn ogystal â bod yn olygydd creadigol treiddgar a manwl, mae hi'n medru cael, a chadw trefn ar bethau. Bryd hynny, tua wyth oedd Eyllt. Wrth drafod y posibiladau o ran diwyg *twl lol*, fe wawriodd arnaf y gallwn ofyn i Eyllt wneud darluniau. Dwi'n arbennig o hoff o'i gwaith hi mewn inc du, ac roedd hyn yn cyd-fynd â syniadau eraill oedd gen i am estheteg y gyfrol, sef bod yn blaen ac (i'r graddau y gall unrhyw fardd fod) yn ddirodres. At hyn, roeddwn i isio ffont glân, plaen, clir a gosod englynion mewn ffordd fwy 'plaen' ar y dudalen. Penderfynais hefyd (ar y cyfan) hepgor priflythrennau er mwyn cyd-fynd â'r estheteg hon. Roedd hyn hefyd yn taflu cipgolwg yn ôl at y cerddi oedd wedi fy ysbrydoli fwyaf pan oeddwn yn ifanc, sef yr Hengerdd, telynegion Lladin a cherddi Hen Saesneg, nifer ohonynt wedi eu hargraffu mewn llythrennau bychain, yn dilyn trefn y llawysgrifau gwreiddiol am wn i. Roeddwn wastad wedi meddwl bod rhywbeth cwl iawn am hyn, am reswm na fedra'i mo'i esbonio.

Yn fras, be oedd y broses o roi'r cyfan at ei gilydd? Pwy oedd yn gwneud be, pryd a pham?

Angharad: Y cerddi at ei gilydd oedd yn dod gyntaf, er bod yna un neu ddwy wedi eu hychwanegu wedi'r detholiad gwreiddiol, ac un englyn, sef yr un cyn y dudalen gynnwys, wedi ei ysgrifennu ar

yr eiliad olaf un. Wedyn roedd yn rhaid meddwl am eu gosod mewn trefn ac fe wnaed dilyniant bras cyn dechrau meddwl am luniau. Gan fod Eyllt yng nghanol ei harholiadau gradd a bod dyddiad mynd i'r wasg yn trybowndio tuag atom, fe greais ryw fath o restr o awgrymiadau o ran lluniau. Canllaw yn unig oedd honno ac fe ddefnyddiodd Eyllt adenydd ei dychymyg wêth, gan ymateb i'r rhestr weithiau, a'i hanwybyddu'n fendigedig dro arall. Wedi i Eyllt offen ei gwaith roedd raid ailfeddwl rywfaint am y dilyniant, gan fod ambell lun yn hawlio tudalen ar wahân, lluniau eraill yn gwbl wahanol neu wedi symud, a dal angen i ni barchu'r gofyn i gadw rhai cerddi gyferbyn â'i gilydd ar dudalen ddwbwl a'n bod fel canu penillion, yn gorffen yn y man lle'r oeddem i fod i orffen.

Emyr: Un peth yr hoffwn ei ychwanegu yw nad oes llawer o laffs yn y gyfrol hon, o'i chymharu â fy nghyfrolau blaenorol, fel y nododd Eyllt. Un o'r pethau yr oeddem yn awyddus iawn i'w sicrhau oedd nad oedd hynny'n gwneud y gyfrol yn drwm neu'n llethol. Roedd gwaith trefnu Angharad a chreffft arlunio Eyllt yn rhan ganolog o hyn, a bu'r ddwy'n cydweithio'n ddyfal.

Sut brofiad oedd cydweithio fel teulu? Oedd yna unrhyw divas? Defenestrations? Neu oedd o i gyd yn ddedwydd?

Emyr: Grêt.

Angharad: Roedd yn fantais fawr ein bod yn perthyn i'r un teulu ac nad oeddem yn gaeth i ffiniau amser arferol – oriau swyddfa/oriau anghymdeithasol ayyb. Roedd hynny'n golygu hefyd nad oedd yn rhaid bod yn rhwym i ryw drefn ragordeiniedig – a bod rhwydd hynt i bob un ohonom awgrymu newidiadau, diwygiadau ac ychwanegiadau tan ddyddiad mynd i'r wasg.

Eyllt: Roedd gweithio gyda fy nheulu ar brosiect creadigol o'r fath yn fraint ac yn wefr. Buom ni'n tri yn gweithio'n galed er mwyn cael y cynnyrch gorau posib yn y pen draw, ac mae'r gyfrol orffenedig yn destun balchder mawr. Mae popeth wastad yn ddedwydd – dyw'n teulu ni byth yn cwmpo mas. Pa fath o gwestiwn yw hwnna? Twt lol!


Sut oedd dethol pa gerddi oedd yn cael eu cynnwys yn y gyfrol?

Emyr: Mater o ddod o hyd i gerddi i lenwi cyfrol oedd hi gan fwyaf. Er enghraifft, gwelodd rhai o'r cerddi olau dydd gyntaf ar y we, heb i mi gadw neu gofio lle'r o'n i wedi cadw cofnod ar wahân ohonyn nhw, ac roedd angen mynd nôl dros hen drydariadau a hyd yn oed i Annedd y Cynganeddwyr i gyrchu rhai ohonyn nhw.

Wedi cywain swmp gweddol o gerddi at ei gilydd, bu peth trafodaeth am beth i'w gynnwys a beth i'w hepgor. Er 'mod i wedi sgwennu cryn dipyn o gerddi cyfarch yn y cyfnod hwn, dim ond pedair (dwi'n credu) sydd yn y llyfr i gyd, ac maent wedi eu dewis yn bwrpasol er mwyn cyd-fynd â themâu eraill yn y gyfrol – er enghraifft, ar yr un dudalen â dau englyn llai na chanmoliaethus am y Brecksutwyr mawr David Davis a Michael Gove, mae englyn yn dathlu priodas Siwan, merch ein ffrindiau Mari a Dave Stephens, a'i gŵr Arek sy'n dod o wlad Pwyl ac hefyd yn dathlu llawenydd perthynas gwledydd Cymru a Phwyl.

Oedd yna ystyriaeth i rythm, thema, arddull, neu fesur wrth fynd ati i drefnu'r cerddi?

Angharad: Wrth ddarllen y cerddi ynghyd am y tro cyntaf, roedd hi'n amlwg fod yna rai themâu penodol yn brigo i'r wyneb – e.e. cynhesu byd eang, galar, Brexit, heddwch/rhyfela. Mater o gorllannu'r cerddi i'r cyfryw themâu oedd hi wedyn cyn sylweddoli yn weddol glou y buasai dilyn hynny fel efengyl yn rhy ragweladwy ac yn wir yn anniddorol. Felly er bod y confensiwn hwnnw wedi ei barchu mewn mannau, mae hefyd wedi ei ddiystyru mewn llefydd eraill. O'm rhan i roeddwn am i bobl fedru darllen y gyfrol o glawr i glawr pe dymument wneud hynny, ac roedd peidio â diflasu'r darllenydd, drwy fod yn undonog o ran thema neu gywair neu ffurf yn hanfodol. Felly os oedd yna gerddi galar roedd hi'n bwysig fod y gerdd ddilynol yn gweithredu fel rhyw fath o falm i'r enaid. Yn yr un modd cyfodir cerdd led ddwys am henaint sef 'trosedd' gyda cherdd sy'n dathlu ieuentid ar y naill law ond yn atgyfnerthu'r henaint mewn modd digon ysgafn ar y llall ('Hogia Llandegái'). Doedd yna ddim fformiwla cysâct mewn gwirionedd: mater o reddf oedd hi a dweud y gwir.



Mae ambell englyn yn hawlio tudalen gyfan. Rwy'n aml yn teimlo wrth ddarllen cyfrolau o farddoniaeth fod staco gormod o englynion ar un dudalen yn dreth ar y darlennydd ac nad yw'r englynion felly yn cael cyfiawnder na lle i anadlu. Er mai mesur cryno yw'r englyn, mae'n medru dweud llawer mewn ychydig eiriau. Nid oes ond raid edrych ar englynion hynod gyfoethog y diweddar T. Arfon Williams i sylweddoli hynny. Mae angen rhoi cyfle i'r darlennydd fyfyrion ar y cynnwys cyn bwrw mlaen i'r dudalen nesaf.

Roedd hynny'n wir am ddyluniad y gyfrol ar ei hyd. Mewn byd gorbysur a phob twll a chongl o'n bywydau wedi eu gorlenwi â delweddau a geiriau'r cyfryngau cymdeithasol, mae'n braf wrth droi at gyfrol o farddoniaeth fel hon gael seibiant o'r dwndwr. Roedd y meddylfryd hwnnw – a'r angen i gael gofod gwag – yn llywio popeth, o natur a maint y ffont, i'r gofod rhwng y llinellau, i leoliad y cerddi a'r lluniau ar y dudalen.

Mae nhw'n gerddi sy'n teimlo'n gyfoes iawn ar brydiau. Oedd hynny'n fwrriadol?

Emyr: Mae nifer o'r cerddi yn sôn am bethau sydd wedi digwydd ers mis Mehefin 2016 pan bleidleisiwyd dros Brexsut. Mae eraill sy'n crybwyll hynny, neu'n ymateb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd i hynny ac i'r newid difaol a fu yn ein disgwrs cyhoeddus yn sgil hynny. Mae'n bosib iawn na fydd y rhain yn golygu rhyw lawer i ffans llên y dyfodol, ond maen nhw'n bwysig i mi ar hyn o bryd, ac mae Brexsut yn lol yr wyf yn dymuno dweud twt wrtho.

Mi roedd Ewrop yn teimlo fel thema amlwg. Ydi'r cyfandir yn ddyllanwad?

Emyr: Wel ydi. Dwi wedi bod yn ddigon

ffodus i gael ymweld â nifer o wledydd Ewrop, ac mae'r syniad ein bod ar fin torri'r cysylltiad â'r cyfandir yn loes calon i mi. Er nad oes gennyf ryw chwilen Saundersaidd am Ewrop fel rhyw eneidfaeth diwylliannol coll i'r Cymry, rwy'n gweld cryfder llamu fel llyffant dros Loegr er mwyn i ni gael teimlo a deall a gweld a gwrando a phrofi a ffroeni a chyffwrdd diwylliannau, ac yn benodol ieithoedd, amgen.

Angharad: Cymry ac Ewropeaid ydym ni. Dyna yw ein hunaniaeth. Ac efallai fod daearyddiaeth y gyfrol hon yn adlewyrchu hynny yn fwy na dim.

Mae'r gyfrol yn cynnwys cyfieithiadau o gerddi gan Frank O'Hara a Wallace Stevens- pam eu cynnwys? Oes yna ddi-ddordeb mewn barddoniaeth Americanaidd?

Emyr: Oes wir. Roedd gen i diwtor *prac crit* pan o'n i'n astudio Saesneg yn y Brifysgol oedd fynycha'n gosod darnau o waith beirdd Americanaidd i ni yn wythnosol i'w hastudio. Un o fy hoff atgofion am Iwan Llwyd yw cyflwyno gwaith Wallace Stevens *The Man with the Blue Guitar* iddo. Roedd Iwan wedi ei swyno a'i syfrdanu ganddo. Wedi dod yn ôl at y rhain yr ydw i yn ystod y deng mlynedd diwethaf, yn arbennig felly beirdd oedd yn eu preim rhwng dechrau a chanol yr zofed Ganrif fel William Carlos Williams, e.e. cummings a Robert Lowell ymysg eraill. Ond yn arbennig Wallace Stevens. Mae ei arddull swynol anhygyrch, ei anffyddiaeth gyfriniol a'i greadigrwydd mydryddol a geiriol yn fy nenu yn barhaus. Doeddwn i ddim o blaid cynnwys y rhain yn y gyfrol i ddechrau, ond fe wnaeth Angharad ddwyn perswâd arnaf. Mae'r darnau o waith Stevens yn cynnig gwrthbwynt llyfn i'r cerddi chwerw galarus ar y cychwyn, ac felly'n gweithio fel rhyw fath o drosglwyddiad i weddill y gyfrol, ac

mae cerdd O'Hara yn un twt loliad mawr.

Beth oedd y drefn o ran creu'r celf i fynd efo'r gwaith?

Esyllt: Y briff oedd creu darluniau pen ac inc, amlinelllog, syml i gyd-fynd ag estheteg ddi-lol y casgliad. Roedd gen i ryddid llwyr i bori trwy'r cerddi a dewis y sawl oedd yn fy ysbrydoli i ddarlunio; cerddi am y môr a golygfeydd dinesig oedd yn denu'r sylw i ddechrau. Ar y llaw arall, roedd gan Dad syniad reit bendant o gerddi nad oedd angen unrhyw beth i'w haddurno, a cherddi eraill yr oedd Mam yn credu bod angen i ddarlun ymddangos wrth eu hymyl. Roedd hi'n broses organig iawn felly, pawb yn cyfrannu at y potes o syniadau, ond roedd cynnal yr estheteg syml yn golygu ein bod yn weddol gytûn ar y cyfan.

Angharad: Peidio â bod yn rhy lythrennol, gymesur neu amlwg drwy, er enghraifft, greu llun ar gyfer pob cerdd. Cawsom bererindod sydyn i Mwnt ryw ddiwrnod er mwyn i Esyllt allu braslunio ar gyfer y llun ar dudalen 41 a'r lle mor rhyfeddol ag erioed. Ond eithriad oedd hynny.

Sut dewiswyd delwedd y clawr?

Esyllt: Dros gyfnod o flwyddyn, rhwng Ionawr y 1af 2017 a'r 31ain o Ragfyr 2017, bues i'n darlunio bob dydd gan osod y cynnyrch ar Instagram o dan y teitl hynod ddychmygus @darlun-_y_dydd. Darlun clawr 'twt lol' yw fy narlun yn cynrychioli'r 11eg diwrnod o fis Tachwedd, 2017, darlun haniaethol o barti pen-blwydd un o fy ffrindiau gorau lle buom yn ymlusgo o amgylch tafarndai Caerdydd. Teitl y darn oedd 'Pub Crawl' ond nid ydym yn sôn am hyn yng nghyd-destun 'twt lol', cyfrol chwaethus a dirwestol.

Emyr: Soniais uchod am yr arddull blaen, ddu a gwyn, yr oeddwn yn dymuno ei chael rhwng y cloriau. Fel gwrthbwynt i hyn, yn ysbryd twt lol, roeddwn i isio clawr trawiadol a lliwgar. Mae hwn yn un o blith fy hoff weithiau lliwgar gan Esyllt, a hwn oedd fy ffefryn ar gyfer y clawr o'r cychwyn. Dwi mor falch fod y llun cyfan i'w weld yno.

Mae rhai o'r lluniau yn ddisgrifiadau o bethau diriaethol, eraill yn fwy abstract a geometrig – sut oedd penderfynu ar yr arddull?

Esyllt: Ychydig o'r ddau – mae dibynnu'n llwyr ar ddiriaeth ac efelychu'r byd go iawn mewn celf braidd yn ddiffas yn fy marn i – dwi'n grediniol y dylid ceisio cyfleu rhywfaint o bersonoliaeth yr artist mewn gwaith. Yn yr ystyr hynny felly, mae'n bwysig peidio â glynu'n ormodol at greu lluniau disgrifiadol, a defnyddio'ch dychymyg a'ch greddf i'ch



Angharad, Emyllt, Emyr

arwain chi. Ma hwn yn swnio'n arty-farty iawn ond tyff!

Roedd ambell gerdd yn naturiol yn gofyn am feddwl mewn ffordd mwy haniaethol, yn enwedig wrth gofio mai lluniau syml, amlinelllog oedd eu hangen. Y mae ambell gerdd yn fwy haniaethol na'i gilydd hefyd ac felly mae'n bwysig cadw hynny mewn cof wrth ymateb – eto peidio â chyfyngu ar ystyr y cerddi. Bu 'Dan Ddylanwad' Iwan Llwyd ac Anthony Evans yn ysbrydoliaeth fawr yn hyn o beth. Gobeithio y bydd y gyfrol hon yn sbardun i fwy o feirdd ac artistiaid gydweithio yng Nghymru – rhaid i ni feddwl mewn ffyrdd aml-ddisgyblaethol am ein diwylliant er mwyn ei gadw'n iach ac yn gyffrous.

Pam cyfuno gwaith celf a barddoniaeth?

Emyllt: Dwi'n credu'n gryf bod angen cyfuno dulliau gwahanol o greu lle bo hynny'n bosibl, am fod gwneud hynny yn medru eich goleuo i edrych ar y byd mewn sawl ffordd, nid dim ond mewn un ffordd. Y mae creu cynnyrch aml-ddisgyblaethol yn gyffrous, ac roedd Dad yn awyddus i ddenu to newydd at ei farddoniaeth a dwi'n credu bod celf yn ffordd o ymgynghraedd at bobl yn syth, gan gynnig ambell waith allwedd iddynt ffynhau'r cerddi, heb fod y gwaith

gweledol yn gormesu neu'n cyfyngu ystyr y geiriau. Creu llyfr hygyrch oedd y bwriad, a dwi'n credu bod symlrwydd ymddangosiadol y cyfanwaith wedi llwyddo yn hynny o beth. Mae angen cyfuno celf, barddoniaeth, cerddoriaeth, dawns a drama yn fwy aml – pwy a wŷr pa bethau gwych a gwachul y gellid eu creu?! Mae'n ffordd o agor y byd allan i ragor o bobl allu mwynhau ein diwylliant.

Emyr: Mae angen gofal wrth wneud peth felly, wrth gwrs, gan fod y gwaith celf yn medru caethiwo'r ymateb i'r cerddi, ac fel arall, neu mae'r naill yn medru tynnu sylw oddi wrth y llall. Ond o'i wneud yn iawn, gall y naill gyfoethogi'r profiad o werthfawrogi'r llall.

Allwch chi sôn am eich hoff ddarlun yn y casgliad neu hoff gerdd?


Emyr: Os oes rhaid i mi ddewis un, dwi'n credu mai'r darlun hwnnw o gerbyd U-Bahn (**uchod**) ar draws gwaelod dwy dudalen yw hwnnw, am ei fod wedi gweithio yn union fel yr oeddwn wedi dymuno. Mae'r cerbyd a'i ddrysau ar agor wedi ei ddarlunio'n glir a phendant dan y cywydd am Berlin ar yr ddalen chwith, ond mae'n ymdoddi'n linellau haniaethol (yn ôl dan ddaear efallai) ar y ddalen dde, lle ceir dau englyn sy'n cyfuno'r Eisteddfod, y Rhyfel Mawr a Brecsut.

Angharad: Hoff lun – 'tŷ ni' am ei fod yn cyfuno'r cyfoes a'r traddodiadol – trefn ac anhrefn – ac yn ein hatgoffa wrth edrych o hirbell ar yr hyn sy'n ymddangos weithiau fel llywodraeth bendramwnwgl ym Mae Caerdydd – fel yn wir ar aml i agwedd ar ein bywyd cenedlaethol – mai siwrne faith fu cyrraedd y man lle'r ydym fel cenedl a bod rhaid cofio hynny wrth gynnull y dyfalbarhad i barhau â'r siwrne, beth bynnag fo'r croeswyntoedd.

Emyllt: O ran y cerddi, maen nhw mor amrywiol fel bod gen i ffefrynnau ar ddiwrnodau gwahanol yn ddiwynnol ar fy ysbryd. Dwi'n caru'r môr felly am wn i mai fy hoff gerdd yn yr haf yw un o'r rhai sy'n trafod y môr, megis 'rhegi' neu'r cyfieithiadau campus o gerddi Wallace Stevens, 'Wyneb y môr yn llawn cymylau'.

Ond mae'n rhaid i mi ddweud bod y cerddi sy'n trafod Nain a Taid, a'r cartref teuluol Penrallt, yn drysorau hynod i ni wrth ddod i delerau gyda cholli dau o liwiau disglair ein bywydau. Dwi'n credu eu bod nhw'n gerddi y gall unrhyw un sydd wedi colli rhywun uniaethu â nhw; mae 'grug eleni' yn gampwaith cryno, sy'n cyfleu rhwystredigaeth colled i'r dim.

twt lol - Gwasg Carreg Gwalch, £9



O'R MÔR MARI HUWS

Dyma ragor o gyfres Mari Huws o straeon byrion, sy'n creu hanesion o amgylch y darnau o'n plastig gwastraff ni sy'n cyrraedd y môr yn feunyddiol. Gellir gweld darn cyntaf y gyfres, 'Do Not Drink Sea Water', ar ein gwefan.

SuperValu Gold Spread

08.25 yb

'Ddedes di ddim.'

'Do, mi nes i.'

'Wel, s'gen i ddim co' o gwblw ohona ti'n dweud dim wrtha i.'

Plyga Cai dros ddrws agored y ffrij, ei lygid yn gwibio o silff i silff yn chwilio am y menynd.

'Do, mi ddedes i wrtha ti nos Lun.'

'Nos Lun?'

'Wti 'di gweld y menynd?'

'Ma' na *spread* ar y bwrdd. Nos Lun?'

Eistedda Sioned â'i breichiau wedi eu croesi yn edrych a'r Cai, â'i haeliau hanner ffordd fyny ei thalcen.

'Pasia'r *spread* 'na ta.'

Dyma'r ail benwythnos ers i Sioned ddechrau bwyta fel *vegan*.

Edrycha Cai yn drist ar ei dôst a'r *spread* yr un lliw â wyau ieir ffatri. Wrth gymryd ei frathiad cyntaf daw sŵn cnocio ar y drws ffrynt.

'Ma' 'di cyraedd! Fedri di agor y drws i fi gael gorffen fy mrecwast? Plis.'

Heb ddweud gair, cwyd Sioned ar ei thraed a gadael y gegin heb fawr o frys.

'Su'mai? Ydi'r gŵr yn barod am ddiwrnod o 'sgota?' chwardda Tomos, ei lais dwfn yn treiddio drwy'r tŷ i'r gegin.

Saif Tomos wrth y drws ffrynt fel ci cyn cael mynd am dro. Dychmyga Sioned pe bai ganddo fo gynffon y basa hi'n dawnsio o ochr i ochr fel weipars car ar ddiwrnod glawog.

'Gŵr? Jôc dda. Ma'n buta'i frecwast, ty'd drwadd.'

Wrth y bwrdd bwyd goleua wyneb Cai wrth weld Tomos yn sefyll yn nrws y gegin, ei ben bron a chyffwrdd y bwa a'i ysgwyddau yn llenwi lled y gwagle.

'Suma'r hen 'ogyn?'

'Duw, Tomos! Ti'n fuan 'rhen goes!'

'Buan? Hanner 'di wyth 'ddedso ni de. Chdi sy'n hwyr, fel arfer, de Sioned?'

Gall Tomos bwysu ei benelin yn gyfforddus ar ysgwydd Sioned, a hitha'n ddim ond pum troedfedd a dwy fodfedd o daldra. Gwela Cai waed ei gariad yn berwi wrth i'w ffrind bwysu arni.

'Cym' sedd Tom, fydda i ddim dau funud.'

Cymera Sioned ei sedd hefyd a chwpanu ei dwylo o gylch ei myg, a'r stêm dal i ddenig i awyr oer y gegin. Ers iddi gyfarfod Cai, mae hi'n ei chael yn anodd iawn teimlo'n hollol gyfforddus pan fo'r ddau yma yng nghwmni'i gilydd. Un gwyllt ydi Tomos; un gwirion.

'Be 'di hanes y gwch yma ta Tomos?' cwestiyna Sioned, yn ymdrechu yn galed i beidio swnio'n rhy amheus.

'Fu'n nhaid i farw riuw fis nôl, a geshi'r gwch yn y *will*.'

'Ddrwg gen i glywed.' Gwridda Sioned.

'Ma'n iawn siŵr. Hen ddyn blin oedd o sdi. Dwi'n lwcus 'mod i wedi cael dim ganddo fo!'

'Ers pryd sgen ti leisians gyrru cwch ta? Do'n i ddim yn gwobod bo chdi'n un am forio.'

'Leisians? Sa neb yn edrych ar betha fel'na rownd ffor'ma siwr, fydda' ni rêt bois unwaith y bydda ni wedi mynd rownd y trwyn. Ma'n haws i'w yrru na car w'sdi.'

Bratha Sioned ei thafod a chymryd llymaid o'i the mint wrth i Cai frysio o gwmpas y gegin fel iar rug yn taflu petha i focs oer. Torth gyfa. Bloc o gaws. Jar hanner llawn o *Branston Pickle*. Y *spread* a phedair potel gwrw.

'Reit, dwi'n barod.'

'Sgen ti ddigon o ddillad cynnas efo chdi?'

'Oes, sbia braf 'di.'

Mae'r tri yn troi i edrych drwy'r ffenest ar y sgwaryn o ardd tu allan. Y gwair yn llachar o dan belydrau'r haul a'r coed yn llonydd.

'Ma'i dal yn fis Mawrth cofia. A

bwyd, sgen ti ddigon o fwyd?'

'Mi fydda i'n iawn Sions. Yli ar y bocs 'ma.' Mae Cai yn rhoi ei fraich am ei gariad a brwsho cusan swil ar ei boch cyn i'r ddau ffarwelio.

'Mi fydda i nôl cyn te.'

'Byddi mwn', medd Sioned o dan ei gwynt, gan roi clep i'r drws.

22.30 yh

Saif dwy fowlen ar ganol y bwrdd a'u cynhwysion wedi eu cuddiad o dan haen o ffoil. Eistedda Sioned yn y tywyllwch gyda'i chefn yn sythach na chefn y gadair a'i dwylo yn ddyrnau ar ei glin. Bob hyn a hyn cwyd un law a tapio sgrîn ei ffon i weld yr amser cyn ail gydio'i bysedd yn ddwrn a'u pwyso mewn i'w gliniau. Gall deimlo pob cyhyr yn ei chorff yn dynn, yn ddi-symud; o'i gwar i'w bol i fodiau ei thraed. Er ei bod hi'n eistedd yno, mor ddi-symud, rheda ei meddwl o un peth i'r llall. *Ma rhywbeth mawr o'i le, ma'r gwch wedi suddo*. Dychmyga gorff marw Cai yn arnofio. Ysgydwa ei phen i gael gwared o'r darlun. *Falla fod Tomos wedi cael ei arestio am yrru heb leisans. Fasa ti'n cael dy arestio am yrru heb leisans? Siawns. Ma' 'na rhywbeth mawr o'i le*. Ymgolla hefyd yn ei hoff atgofion ers cyfarfod Cai; y gwylia i Roeg, y trip i Lundain a'r noswaith y gofynodd wrthi hi ei phriodi hi yn ei ddiod cyn mynd nôl ar ei air yn enbyd y bore trannoeth. Daw dagrau i'w llygaid wrth ddechrau dychmygu llymder ei bywyd heb ei gwmni. Yn sydyn, gan wneud iddi neidio allan o'i chroen tyrr gloch ei ffôn drwy ddistawrwydd y tŷ.

'Helo?'

'Lawn Sions? Fi suma.'

'O blydi hell. Wti'n iawn? Be ddigwyddodd? Wti angen fi dy nôl di o rhywle?'

'*Calm down* Sions! Ges di ddim fy neges destun i?'

'Naddo! Pa neges?'

'O, ma raid bod y ffôn wedi marw cyn idda fo yrru. Sori, swni wedi ffonio yn

gynt.'

Sylla Sioned ar y marciau ar gledd ei llaw lle oedd ei gwinedd wedi tyllu hafnau bach du. Anadla yn ddwfn.

'Wti heb fod yn poeni naddo?'

Distawrwydd am eiliad.

'Lle ddiawl wti? Mi nes i swpar i ni.'

'O sori Sions, mi oni wedi deud yn y text. Mi lithrodd y bocs oer o gefn y gwch felly gafo ni ddim cinio. Dani yn y Llew Du wan yn cael swper a peint bach, ffonio oni i weld os wti am ddod lawr i ymuno? Mi oni wedi disgwyl dy weld di yma oria nôl.'

Cool Whip

Roedd y glustog yn canu grwndi yn erbyn ochr chwith pen Paula.

'Paula, ma dy ffôn di'n canu.', Ceisiai Patric wneud synnwyr o'r bysedd glow in the dark ar ei oriawr, gyda'i lygaid yn gilagored â'i fraich wedi plygu o flaen ei wyneb. 'Paula,' sibrydodd yn uwch, ei henw yn chwythu allan o'i ysgyfaint i dywyllwch y 'stafell.

Tonnau yn torri ar y lan a'r awel yn chwythu ei henw, grwndi a gwynt a'r môr mor las. Gwingodd wrth deimlo penelin yn ei phwnio. Cerddodd yn gynt ar hyd y linell wen o swigod lle'r oedd y traeth yn cyrraedd y dŵr. Pwn. 'Paula, deffra, ma dy ffôn di'n canu'. Rhedodd Patric ei law yn ddall i fyny ac i lawr y wifren wrth ochr y gwely nes cael gafael ar y botwm a goleuodd y lamp gan achosi i'w lygaid gau yn dynn. Trodd at gorff di-symud ei gariad a phlannu ei law o dan ei phen i nôl y ffôn. Daeth ton rewlyd dros Paula a'i deffro o'i thrwmgwsg mewn sioc i ystafell olau a Patric yn rhythu arni ac yn dal ei ffôn yn fraichsyth o flaen ei wyneb.

'Helo?' sibrydodd Paula yn gysglyd wrth i'r geiriau fynd yn sownd yn ei gwddw.

'O! Diolch byth! Dach i wedi deffro.'

Trodd llygaid Paula yn ei phen a geiriodd 'Rosie' yn ddi-smic efo'i chêg i

gyfeiriad Patric. Trodd yntau ei lygaid cyn troi ar ei asgell a thynnu y dwfe dros ei ben.

'Bora da i titha hefyd Rosie.'

'Ia ia, helo, bora da. 'Wan

gwranda, change of plans efo'r gacan.

Dwi newydd dderbyn e-bost gan Yncyl

Sam yn deud fod well gan Anti Ursula gacen sbwng na chacen ffrwytha.'

Gorffwysodd Paula yn ôl ar ei chlustog a'i dwy lygaid bron ar gau. Anadlodd yn ddwfn â'i bysedd yn llithro ar raffau byrion ei hamynedd.

'Ia Rosie. Be ddiawl sydd gan hyn i neud efo fi am...' tynnodd ei ffôn o'i chlust a chymryd cip ar yr amser a safai yn bowld ar dop y sgrîn '...hanner awr wedi chwech y bora?'

'Ma'r bedydd yn dechra am naw, Paula, a 'da ni angen bob dim yn barod cyn hynny, y buffet, y capel, gwisg Linda...'

Er ei bod hi'n meddwl y byd ohoni, lledai gwên ar hyd wyneb Paula bob tro y clywai enw ei nith newydd. Pwy ddiawl sydd yn galw babi yn Linda?

'Lawn, iawn. Be alla i neud i helpu?'

Meddwl o'n i fod y siop gornel

wrth eich fflat chi'n un 24 awr dydi?'

'Yndi, be ti angen?'

'Hufen dwbl plis, ty'd â fo draw cyn gynted a phosib, grêt, diolch, ti werth y byd.'

'Run hen dric chwaraeai Rosie erioed; plannu'r ffôn i dragwyddoldeb cyn disgwyl ateb. Ochneiodd Paula wrth lusgo ei chorff o goflaid mawr y gwely cyn sibrdw yng nghlust Patric, 'Dwi'n picid i'r siop a wedyn i dŷ Rosie, fydda i yn ôl cyn wyth.'

*

Rhwng gadael drws ffrynt y fflat a chyrraedd y siop gornel, roedd hi wedi gwawrio yn hynod o gyflym a theimlai Paula yn ymwybodol iawn o'i thrwsus pajamas a'i hen gôt law. Roedd hi wedi tybio na welai hi fawr o neb mor fore ar y penwythnos ond ymddengys fod y byd yn dal i godi am saith hyd yn oed ar fore Sadwrn.

Syllodd ar y ffrij heb lawn ddeffro a'r golau fluorescent yn adlewyrchu ar ei hwyneb.

'Can I help you, love?'

'Please, I'm looking for some double cream...'

'Double cream? Afraid we have no double cream, but we have the next best thing.'

Ymestynnodd y dyn i dop y ffrij â rhych ei ben-ôl yn dweud "bore da" wrth y byd. 'Here we go, love.'

Sodrodd botyn swmpus o Cool

Whip yn nwylo Paula.

'Whipped topping,' meddai fel petai hi'n methu darllen. 'Great, thanks. I guess it will have to do.'

*

Roedd Rosie yn sefyll ar riniog ei drws ffrynt gyda'i merch wedi ei lapio fel anrheg 'Dolig yn ei braich chwith a'i llaw dde yn pwyso yn erbyn y drws agored. Rowliodd car Paula fyny'r dreif, y bedair olwyn yn hawlio marc ymwelydd cyntaf y dydd ar y ffordd wrth i bwysau'r car adael ei ôl yn y tywod.

'Tyn dy sgidia cyn dod mewn i'r tŷ, dwi byth a beunydd yn sgubo tywod 'ma.' Bore da i tithau hefyd, meddyliodd Paula wrth roi'r Cool Whip yn llaw ei chwaer er mwyn cael dwylo rhydd i ddatod ei chriâ.

'Hufen dwbl ddwedes i, be di'r stwff artiffisial yma?'

'Dyna'r oll oedd ganddyn nhw yn y siop – mi fasa diolch yn neis ...'

Ochneiodd Rosie gan bloncio'r Cool Whip ar gownter marbl ei chegin.

'Er mod i wrth fy modd yn byw yma, ma'n blincin niwsans weithiau de! Sa ti heb fedru stopio mewn siop arall?'

Gadawodd i Paula i'w dannedd suddo mewn i'w thafod. Cymerodd anadl mewn drwy ei thrwyn, cyfri i dri, a gwenu cyn codi ei ysgwyddau ar ei chwaer.

'Dim ond un siop 24 awr sydd rhwng fflat ni'n ganol dre a fama – dim fy mai i ydi'r ffaith dy fod ti yn byw ar lan y môr, ddeg milltir o unrhyw siop. Mi fydd raid i'r Cool Whip neud!'

'Na neith wir, mi wneith butter cream yn lle – tyn y caead a gad y Cool Whip na wrth y drws cefn, mi fyfith y gwylanod o.'

Gwyddai Paula fod dim pwynt dadlau efo'i chwaer, felly fel ci bach, aeth a'r Cool Whip at y drws cefn. Wrth agor y drws anadlodd lond ei hysgyfaint o awel y môr a llenwodd sŵn y llanw ei phen a chafodd riu de ja vu rhyfedd a'r awydd mwyaf i gerdded ar hyd y llinell o swigod gwyn a oedd yn dyst fod y môr ar ei ffordd allan. Ond wnaeth hi ddim, dim ond gadael y Cool Whip heb ei gaead i gael ei fwyta gan y gwylanod – a'r pot i gael ei anghofio, ei wagio, ei lenwi gan ddŵr glaw ac yna ei fodd gan ddŵr y môr.



VAGINA *NOUN*

Un noson ddinewyddion
ceisiais feddwl am enw
am yr hyn sydd rhwng
fy nghoesau.

Biji-bo oedd gan fy ffrindiau,
ond pen-blaen oedd gen i
nes tyfu'n hŷn a theimlo'n
annifyr.

Edrychais yn y geiriadur
am enw newydd ond
rhywsut doedd dim
yn weddus.

Roedd *gwain* yn swnio'n boenus
a *fagina*'n rhy feddygol
a meiddia unrhyw un fy ngwisgo
fel *maneg*.

Dwi'n fwy na jest bioleg.
Dwi angen mwy, dwi angen rheg.

Cont.
Dyna sydd gen i.
Hyfryd gont,
perffaith gont
nefolaidd gont.

Y gont filain.
Y gont ddigywilydd.

Cont-
gair bach a pheryg.
Wel, bach a pheryg ydw innau.

LLIO MADDOCKS





Fotograffiaeth: Siôn Tomos Owen (@sionmun)

RHYFEL CARTREF

Daw
awel
wahanol
i lyncu llwch
i fewn i flwch post
sydd heb weld golau dydd
ers y diwrnod y ffarweliodd.

Nawr
dacw
fe'n dod nôl,
Yr enaid byw,
ei lygaid gloyw
wedi llwydo'i wên gwan
a diffodd ei oleuni.

A
hithau'n
ishte'n fud,
yn disgwyl
iddo gadw
addewid iddi,
i ddod â'i frawd yn ôl
o wlad nad oedd yn perthyn iddi.

Pawb,
ond un,
'di aros,
i'w groesawu,
ond yn deall dim
am ddwysder dychwelyd
a chreulondeb goroesi.

cell,
sy'n rhwydd
i'w hagor,
sy'n caethiwo'r
ddau ohonynt.
Drws sy'n agor dau ffordd
ond 'di cau am byth i un.

PEN Y FAN

(ar ôl tocynnau parcio ar wyl y banc)

Pen
Y Fan,
Llwyfan am
bererindod.
defaid mewn gore-tex
yn cribo'r copa 'da
3G a mapiau Google,
ciwio am hunluniau'n y niwl
gan obeithio am synfyfyrdod
dros hanes a golygfeydd Brycheiniog.
Perffeithrwydd garw a'i pheryglon
os na ddatodwyd y llwybr
yn chwys milwr a'i dramgwydda.
Gŵyl Banc hyd 'rei-ffor-sefnty
tra'n trafod twristiaeth,
te oer a chŵn poeth,
tocynnau parcio,
Natur a'u
Bucket
Lists.

SIÔN TOMOS OWEN






o Croeso i Gaernarfon (2018)

PROSES GWENI LLWYD



RHAI ARDDANGOSFEYDD *FUZZY BUNNY*- GWENI LLWYD + CARLOTA NOBREGA - *SPIT AND SAWDUST*, CAERDYDD, HYDREF 2017 / Y LLE CELF, SENEDD CAERDYDD, AWST 2018 / *THE FIRST TOILET EXHIBITION - RUIN*, CAERDYDD, GORFFENAF 2018 / CASTELL 03: I'R MÔR - CASTELL A THREF CAERNARFON, MEHEFIN 2018 / SIGHTSEERS - G39, CAERDYDD, EBRILL 2018 / CYFOES GOGLEDD CYMRU - CAERNARFON, MAWRTH 2018



Tro **Gweni Llwyd** oedd hi i gael ei holi gan *Y Stamp* am ei phroses greadigol ...

Dwi'n treulio llwyth o amsar yn casglu petha. Samplau o ddefnyddiau, eitemau od o siopiau elusen, clipiau fideo o archifau ar-lein, ffotograffau rhyfadd, darnau bach o bren o sgipiau, GIFiau, seiniau - mae'n rhestr hir. Yn fy ngwaith dwi'n trio dod a'r petha yma i gyd at ei gilydd, i archwilio a chwarae gyda'u

hystyron, ac i 'neud synnwyr ohonyn nhw. Dwi'n dewis elfennau sbesiffig, cael gwared ag eraill, a gweld sut maen nhw'n yn edrych neu'n teimlo gyda'i gilydd. Dwi'n trio darganfod petha fel sut mae gwriad yn newid fy nealltwriaeth o rywbeth, sut mae sain gwyrngam yn 'neud i mi deimlo, a sut mae elfennau ffisegol

yn edrych yn ddigidol, neu'r digidol yn ffisegol. Mae'n broses arbrofol iawn efo lwyth o bosibiliadau. Dwi'n mwynhau curadu, dethol a golygu pob elfen, a sylweddoli sut gall petha oedd i weld yn ddigyswllt ffitio neu lifo'n berffaith gyda'i gilydd.



>> gwenillwyd.com / [@gwenillwyd](https://twitter.com/gwenillwyd)

YSTAMP • CYMRU

Gwaith creadigol newydd sbon a gwreiddiol yn wrthnosol ar



Celf Du a Gwynn Aur Bleddyn | Stori Fer Y Gwydr D. D. Owen | RHIFYN Y
STAMP #5 | Adolygiadau Forbiddan Lives a Taith yr Aderyn | Ymateb Golau Byw
Manon Awst | Ymateb Cerddir Gadair Judith Musker Turner | Ymateb Y Lle
Celf Bethan Scorey | Ysgrif Derlwyni Morgan Owen | Stori Fer O'r Môr #1 Mari
Huws | Rhestr Ddarllen Diwrnod Barddoniaeth Cenedlaethol Dylan Huw,
Osian Owen, Caryl Bryn, Siân Northey, Judith Musker Turner, Grug Muse,
Miriam Elin Jones, Iestyn Tyne, Llyr Titus, Hannah Sams | Adolygiad Fideo
Bondo a Treiglo Elis Dafydd, Beth Celyn | Cerddi Ein Tad / Noddfa Siôn Tomos
Owen | Rhestr Ddarllen Dŵr Grug Muse | Cyfweiliad Eira Llwyd Gareth Evans
Jones | Cerdyn Post Creadigol Kerluan Aneirin Karadog



GWASG CARREG GWALCH
Ffôn: 01492 642031 • www.carreg-gwalch.cymru



Ysgol y Gymraeg
School of Welsh

MA Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd

Dewch i astudio rhaglen arloesol a fydd yn datblygu eich sgiliau ymchwil academaidd a phroffesiynol ac sy'n cynnwys profiad gwaith ymarferol.

Bydd y rhaglen yn cael ei theilwra ar sail eich diddordebau chi a'n harbenigedd ni mewn meysydd megis:

- yr iaith Gymraeg a'i thafodieithoedd
- sosioieithyddiaeth a dwyieithrwydd
- llenyddiaeth o bob cyfnod
- ysgrifennu creadigol
- theori a methodoleg cyfieithu
- cynllunio ieithyddol
- hunaniaeth, rhywedd ac amlddiwyllianedd
- llenyddiaeth plant
- y Gymraeg yng Nghaerdydd



"Heb unrhyw amheuaeth mae gradd MA mewn Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd yng Nghaerdydd yn anelu am y safonau uchaf yn y maes, ac yn eu cyrraedd... Nid gormodiaith fyddai cyfeirio at Ysgol y Gymraeg fel pwerdy deallusol a diwylliannol o bwys ym mywyd Cymru."

Arholwr Allanol yr MA, 2017

Mae modd archwilio'r meysydd hyn ar lefel PhD hefyd.

Cysylltwch â ni i drafod ymhellach: derbyncymraeg@caerdydd.ac.uk
caerdydd.ac.uk/cymraeg

CYHOEDDIADAU' R STAMP

Cyhoeddwy'r llyfrau annibynnol

Hwn ydy'r llais, tybad? Caryl Bryn

'Hwn ydy'r llais, tybad?' yw ymholiad Caryl Bryn ar ddechrau ei chyfrol gyntaf; cyfrol sy'n gasgliad o ryddiaith a barddoniaeth, ac yn cynnwys darluniau gan yr artist Elis Derby. Casgliad ydi hwn sydd yn chwilio'n barhaus – yn swigod y noson gynt ac yn lludw'r bore wedyn; trwy ffenestri Bangor Uchaf, ar blatfformau trên yn Lerpwl, ac ar draethau gorllewin Cymru. Dyma gyfrol sy'n ymdrin yn greffus a theimladwy â galar, serch ac ieuentid. Maent yn gerddi fydd yn aros yn hir yn y cof, ac yn gwneud i ninnau holi – 'tybad?'

EBRILL 2019

ystamp.cymru/llyfrau
cyhoeddiadau.ystamp@gmail.com

Clawr: Manon Awst



Caryl Bryn

Cyhoeddiadau Barddas




£7.95

Cyfrol newydd o farddoniaeth gan y bardd a'r llenor Mihangel Morgan.



£9.95


Cerddi hen a newydd wedi eu dewis gan rai o enwogion Cymru.



£12.95
£19.95

Llên-gofiant sy'n trafod bywyd a gwaith un o feirdd amlycaf Cymru.

www.barddas.com

 CYNGOR LLYFRAU CYMRU



HEN DERFYN

(Gwasgaru llwch fy Nhad yn 'Lan Môr Llan', Amlwch)

Llinell od fel llinyn edau
aur brau ar oriawr cyn-deidiau -
a'i boer yn barad 'nôl a 'mlaen
a'r ewyn yn rheg ar ei enau.

Mewn ennyd byr, byrlymai,
a mygu'i hun wrth fy ngwadnau –
ac, o rywle 'dan ei donnau
sleifodd i'r lan ar ei liniau,
ac ym mhoced gefn ei glogyn hallt,
fe gariai ing hen angau.

O don i don fe'th rhoddwyd di
yn Lan Môr Llan yn un â'r lli.
Agorwyd bedd –
ond boddwyd fi.

Mae'r linell bell, yn wir, yn bod
a'r hen derfyn, yn wir, yn ddi-ddarfod.

CARYL BRYN

ahem ... ac yn awr, gyfeillion, toriad bach yn y gwasanaeth. Mae gennym ni gyhoeddiad bach (mawr) eithaf pwysig i'w wneud sef

Mae cylchgrawn *Y STAMP* yn chwilio am olygydd newydd i ymuno â'r tîm Golygyddol.

Am ba fath o berson yr ydym ni'n chwilio?

- ⇒ Rydym yn chwilio am unigolyn* fydd yn medru cydweithio'n dda gyda'r golygyddion eraill, ond a fydd yn dod â rhywbeth newydd hefo nhw at y tîm.
- ⇒ Rhywun, felly, sydd â diddordeb mewn celf, theatr, llenyddiaeth neu faes celfyddydol arall y bydd *Y Stamp* yn elwa o'u harbenigedd. Yn benodol, rydym yn arbennig o awyddus i groesawu ceisiadau gan unigolion yn y byd celf, er mwyn ehangu ar y wedd hon o waith *Y Stamp*.
- ⇒ Mae amrywiaeth yn bwysig i'r *Stamp*. Hoffem felly annog ceisiadau gan bobl o gefndiroedd lleiafrifol neu sydd yn cael eu tan-gynrhychioli, boed hynny o ran cefndir diwyllianol ac ethnig, o ran rhywedd, cefndir dosbarth neu anabledd.
- ⇒ Mae sgiliau cyfrifiadurol, dylunio, neu brofiad o fusnes, cyfrifo neu'r gyfraith hefyd yn bethau gwerth eu hamlygu ar eich cais.

Does dim rhaid cael profiad blaenorol o weithio ar gylchgrawn. Dysgu wrth wneud wnaeth y Golygyddion presennol.

Beth ydy'r gwaith?

- ⇒ Mae'r gwaith yn cynnwys casglu deunydd, golygu a phrawf-ddarllen, hyrwyddo ar-lein ac ar lawr gwlad, trefnu digwyddiadau a chynnal y wefan. **Un o swyddogaethau penodol y Golygydd newydd fydd gweithio fel Cydlynnydd Cylchgrawn, rôl fydd yn sicrhau fod y rhifynnau print yn cael eu cydlynu a'u llywio trwy'r wasg mewn modd mor effeithlon â phosib.**
- ⇒ Nid oes tâl am ymgymryd â'r gwaith hwn. Menter wirfoddol, weithredol yw'r *Stamp*, a chredwn nad oes yn rhaid wrth bres i wneud rhywbeth o werth bob tro (Ond mae 'na fisgedi yn y cyfarfodydd chwarterol, gan amlaf).

Felly, os ydych chi'n meddwl y gallech chi ymuno â'r criw, a chyfrannu at ddatblygiad *Y Stamp*, [cysylltwch am sgwrs neu anfonwch CV a llythyr o ddiddordeb at golygyddion.ystamp@gmail.com erbyn hanner nos ar y 31 Rhagfyr 2018](mailto:golygyddion.ystamp@gmail.com). Ond dim eiliad yn hwyrach, soz.

Reit, sori am eich 'styrbio chi - mwynhewch weddill y rhifyn!

* unigolyn di-lol, meddai Llŷr Titus, ond mae lol yn ocê hefyd, rhan fwyaf o'r amser

AILBOBI JONES

MYFYRDODAU PYSGOTWR

ANN BARLOW/MARY SINCLAIR/GWEN MAIRI SINCLAIR



Sam Jones yn pysgota ym Mhwll Jac, Maesy-crugiau

Arlwy ychydig yn wahanol i'r arfer sydd gan y golofn hon i chi'r tro hwn. Eleni, bydd teulu **John Samuel Jones**, Llanllwni, yn cyhoeddi cyfrol o'i waith. Dyma bwt o'i hanes yn eu geiriau nhw ...

Detholiad yw *Myfyrdodau Pysgotwr* o gerddi a ysgrifenydd dros nifer o flynyddoedd gan John Samuel Jones, ficer plwyf a chyfaill annwyl i bawb. Bu farw Sam Jones yn 2005, yn wythdeg naw oed, gan adael ar ei ôl lyfrau nodiadau a darnau o bapur di-ri yn cynnwys nifer fawr o'i gerddi, emynau a chyfieithiadau. Aeth ei ferch hynaf, Ann, ati i grynhoi'r gwaith a galwyd ar eraill o'r teulu i ddarllen trwy'r casgliad er mwyn dethol cerddi addas i'w cynnwys mewn cyfrol.

Brodor o Esgairdawe oedd Sam; un o bump o blant Sarah a Thomas, fferm Gwarcoed. Roedd Thomas ei hun yn fardd a ennillodd tua chwech ar hugain o gadeiriau gan gynnwys cadair Waunfawr, Caernarfon ym 1936 a hefyd coron Meirion ym 1935. Cyfeirir ato yng ngwaith DJ Williams, *Yn Chwech ar Hugain Oed*.

O dan ofal Tom... yr euthum i ar fy niwrnod cyntaf i ysgol Rhydcymerau.

Efallai mai DJ ei hunan sydd â'r disgrifiad gorau o Thomas Jones, Gwarcoed, y bardd-amaethwr.

Gyda'r blynyddoedd fe ddaeth y bachgen hwn yn gampwr mewn mwy nag un maes: yn gyntaf fel enillydd rhwydd a di-daro y cwpanau arian ym mhreiminon 'redig yr ardal, a'i gŵys fel edefyn o dalar i dalar, ac mor loyw-lyfn â chasten Bontseli ei aradr sionc; ac yna fel bardd, a chyffyrddiad ei awen delynegol yr un mor sicr wedyn, fel y prawf ei gyfrol swynol, *Manion y Mynydd* a gyhoeddwyd gan Wasg Gomer ym 1938.

Roedd teulu Gwarcoed yn byw mewn ffordd nodweddiadol o'r ardal yn hanner cynta'r ugeinfed ganrif. Rheolwyd bywyd gan dymhorau'r ffarm,

gweithgareddau'r capel ac eisteddfodau. Roedd barddoniaeth yn rhan fawr o'u bywydau wrth gwrs a'r plant i gyd, Defi, Sam, Annie Mary, Leisa a Rachel, yn cael eu hannog i astudio'r grefft. Roeddent yn gyfarwydd ag ymwelwyr fel DJ Williams a Dewi Emrys a fu'n treulio amser yng Ngwarcoed yn sgwrsio a thrafod barddoniaeth gyda'u tad. Cadwodd yr hynaf o'r plant, Defi (bardd brwdfrydig hefyd), ddyddiaduron dros y blynyddoedd a bu'n cofnodi'r ffordd hyn o fyw, yn aml gyda thipyn o hiwmor, a cherddi hefyd. Ar ddydd Sadwrn Tachwedd 5ed 1938, ysgrifennodd Defi am ddigwyddiad oedd yn dangos pa mor gyd-weuedig o'dd y bobl, eu hanifeiliaid, y tir a'r tywydd.

Dychwel o Gellidewi ar gefn y poni – sylweddoli wrth gyrraedd y mynydd fod niwl wedi cau amdanom – pedwar ugain cyfer o

fynydd-dir moel i'w groesi - colli cyfeiriad yn llwyr - y ferlen yn mynnu cadw mwy i'r chwith na ddymunwn i - gan na wyddwn well cafodd ddewis ei ffordd, - arswydwn am y picil oeddwn ynddo, a cheisiais gofio pa beth oeddwn wedi glywed am 'o'r niwl i'r nef'. Ymhen amser hir deby gwn i fe safodd y poni'n sydyn. O, y rhyddhad oedd cael ein bod wrth y lliardiard allan o'r mynydd, ac i'r trac garw oedd yn arwain tua thre. Diolch fyth am reddf creadur.

Cyhoeddwyd dyddiaduron Defi Lango yn 2009 dan y teitl *Perlau'r Pridd*.

Dechreuodd Sam ei addysg yn ysgol Esgairdawe gan symud mlaen i Ysgol Ramadeg Llandeilo ar ôl ennill ysgoloriaeth ym 1928. Nid oedd modd teithio nôl a mlân yn ddyddiol felly roedd yn rhaid iddo letya yno gan adael gartre ar nos Sul a dychwelyd ar ddydd Gwener. Bu'n mynychu gweithgareddau eglwys y plwyf gyda'r teulu hwnnw ac er ei fod wedi'i fagu yn Annibynwr, fe'i ddylanwadwyd i ddilyn galwedigaeth fel offeiriad gan fynd i Goleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan ac yna i Goleg San Mihangel, Llandaf. Bu'n gurad yn Llandysul ac yn Llandybie cyn ymgartrefu fel ficer plwyf Llanllwni ym 1949. Priodwyd Sam a Nancy Owen yn eglwys Talyllychau ym 1950 a bu'r bartneriaeth gadarn hynny yn un berffaith ar hyd y blynyddoedd.

O'r dechrau, 'roedd trefnu a pharatoi perfformiadau cyhoeddus yn rhan o fywyd Sam a Nancy. Bu'r ddau yn cyfansoddi darnau i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni ar hyd y blynyddoedd ac roeddent hefyd yn cydweithio dros gyfraniad ysgolion Sul i'r cymanfaoedd lleol. Roedd Calan Hen yn Llandysul yn achlysur pwysig a phan ychwanegwyd Eglwys Capel Dewi i ofal Sam ym 1965 roeddent yn cynorthwyo'r ddwy eglwys i adrodd pwnc ac i ganu anthem.

Cymeriad adnabyddus yn ei Austin 7 oedd Sam ac mae llawer yn cyfeirio at y car wrth ei gofio, er ei fod wedi cael sawl car wedi hynny! Mawr oedd ei ddiddordebau gan gynnwys mecaneg, garddio, trin pren a gofalu am ei ieir. Roedd Sam y dyn tawel, diymhongar yn alluog iawn ac yn gallu troi ei law at bron popeth heblaw am gerddoriaeth. Cafodd ei gynghori yn y coleg nad oedd gobaith ganddo i fedru canu'r gwasanaeth eglwysig yn llwyddiannus! Nancy, ei wraig, oedd athrylith cerddorol y teulu ac yn cyfeilio mewn cyngherddau ac eisteddfodau lleol. Fel darllenwr brwd,

roedd Sam yn wybodus iawn am hanes a llenyddiaeth tra bod magwraeth y fferm yn ei gadw'n glwm â'r tir. Wrth gwrs, bu'r holl bethau hyn yn ddylanwadol ar ei farddoniaeth a chymrodd fantais o un o'i ddiddordebau eraill i gymryd yr amser i fyfyrto drosto'i gerddi ac awdlau. Gyda Ficerdy Llanllwni ddim ond ychydig lathenni oddi wrth lannau'r afon Teifi, bu Sam yn treulio llawer awr dawel yn pysgota yn yr afon yn gynnar yn y bore neu'n hwyr gyda'r nos, gan ddychwelyd gyda brithylliaid i frecwest a llond pen o eiriau i'w cofnodi. Bu casgliad bach o gadeiriau eisteddfodau lleol yn ychwanegiad i'r tŷ ac ym 1959 cafodd ei farddoniaeth ei gynnwys yn y gyfrol Awen Myrddin, casgliad oedd yn dathlu beirdd yr ardal. Yn cyfuno'i yrfa gyda'r angerdd am farddoniaeth, bu galw arno hefyd i gyfieithu emynau gogyfer â chymanfaoedd naill ai o'r Gymraeg i'r Saesneg neu fel arall.

Ar ôl ymdeol a symud i fyw i Lamed, cafodd Sam ddipyn mwy o amser i farddoni ac ymunodd â dosbarthiadau nos dan arweiniad y prifardd Idris Reynolds. Cafodd hwyl fawr yn enwedig pan ddaeth galw arno i ymuno a'r tîm yn Nhalwrn y Beirdd. Mae'n debyg na fyddai *Myfyrdodau Pysgotwr* wedi gweld golau dydd oni bai fod Idris wedi cymeradwyo'r teulu i wneud. Mawr ddiolch iddo am ei frwdfrydedd.

Mae *Myfyrdodau Pysgotwr* yn deyrnged i deulu Gwarcoed ond fydde neb balchach na'i wraig Nancy o weld ffrwyth ei lafur o fewn cloriau llyfr. Bydd arian gwerthiant y gyfrol yn mynd yn gyfangwbl at Tir Dewi, elusen a ddechreuwyd gan yr Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Tyddewi i gynnig gwasanaeth cefnogaeth dwyieithog i ffermwyr Dyfed.

Thomas Jones Gwarcoed, ei dad



Y WAWR

Fe ddringais y llethrau ysgythrog,
Ar waethaf y ludedd a'r draul,
I weled y wawr yn ymddangos
Ar alwad urddasol yr haul.

Disgwyliwn am wychder ysbennydd
Yn pefrio rhwng daear a nen;
Ond llwyd a siomedig fu'r gwawrio
A'r tARTH yn neud sbort am fy mhen.

Ond cefais drwy'r fantell o nudden
Ymdeimlad annisgwyl a mawr
O fywyd yng nghyffro y cymoedd
A gobaith am ddydd yn y wawr.

A gwelais blant Cymru yn dringo,
A chaffael ar doriad y dydd,
Olygfa o niwlog ogoniant
Sy'n ernes o'r sblander a fydd.

J. SAM JONES



Cymeriad adnabyddus yn ei Austin 7...

CARTREFI CYMRU!!!

TYFU LAN YN NHREHERBERT NERYYS BOWEN



Celf: Sion Tomos Owen

Roedd hi'n oreit tyfu lan yn Nhreherbert. Teimlai'n gyfarwydd, digyfnewid, a byddwn i'n teimlo'n saff. Bryd hynny bu newyn yn Ethiopia, rhyfel yn y Falklands, ond yn Nhreherbert doedd dim bygythiad o unrhyw le na gan unrhyw un. Doedd dim byd i darfu ar y llongyddwch yn ei stryd ni, ar wahân i Bobby Tŷ Cornel efallai, yn canu 'Yellow Bird' yn ei fest ar y stepen drws, ar ôl dod adre o'r dafarn.

Bydden ni'r plant yn mwynhau taith i'r dafarn yn yr haf hefyd. Bydden ni'n chwarae mas yn yr ardd gwrw tra bod ein mamau'n sgwrsio a'n tadau y tu

mewn yn y bar myglyd. Gyda chreision yn un llaw a *Panda Pop* yn y llall, treuliam ein nosweithiau'n cwrsio ein gilydd o gwmpas y goeden pysl mwnci enfawr, neu'n ceisio ei dringo. Wrth i'r machlud ledi ar draws cynfas eang awyr y Rhondda, deuai'r aroglau o'r siopau sglodion. Yn anfodlon gyda'r creision, byddem yn pipo trwy ddrws y bar i geisio gweld ein tadau'n hunain ymhlith torf o grysau a mwstasys a begian am arian sglodion. Gyda sigaretau rhwng eu gwefusau, bydden nhw'n chwilio yn eu pocedau dad dwfn am newid, dim ond i gael gwared â ni. Doedd dim blas gwell

na sglodion yn yr ardd gwrw.

Yn ystod dyddiau hir yr haf, byddai plant Treherbert yn treulio lot o amser lawr yn y pwll nofio awyr agored – y *baths*. Ni ddyfeisiwyd lechyd a Diogelwch bryd hynny, felly yn y bôn, gallen ni wneud unrhyw beth y dymunen ni, cyn belled â bod gynnon ni'n bathodyn 25 medr. Byddai llawer o hwyl yn nofio, neidio, defnyddio'r bwrdd plymio. (Beth yn y byd ddigwyddodd i fyrddau plymio? Gormod o risg efallai, neu ormod o hwyl. Wedi meddwl amdano fe, dwi ddim yn siŵr faint o blant 8 oed sydd â'r sgiliau i ddefnyddio bwrdd

plymio'n ddiogel.) Ta beth, fe wnaethon ni. Ac aethon ni lawr y llithren yng ngôl ein gilydd, a neidio oddi ar fyrddau'r estyniad uchel, heb oruchwyliaeth. Cyn belled ag y gwn i, fuodd neb farw.

Roedd y *baths* mewn parc mawr, gyda lawnt bowlio a chyrtau tennis. Pan nad oedd y pwll ar agor, byddem yn chwarae'n hapus yn y parc, yn siglo, dringo a neidio oddi ar bethau. Byddwn i bob amser yn gwneud yn siŵr i osgoi'r bechgyn mawr a fyddai'n ceisio ein gorfodi i ddweud "fuck" am hwyl. Yn ffodus, bues i'n ferch eitha *sanctimonious*, a fyddwn i byth wedi gwneud y fath beth. Roedd digon i'w wneud yn y parc ei hun, ond mae'r rhan fwyaf o'r offer wedi diflannu erbyn hyn. Bu het y wrach yno, neu'r ymbarél, nad ydych chi yn ei gweld bellach. Dychmygwch gôn ben i waered ar ben polyn, a dyna oedd ei siâp. Gallech chi fynd rownd fel chwyrligwgan, neu siglo mewn a ma's a reit mewn i'r canol a gwasgu'ch pengliniau. Bu si-so hefyd a oedd yn lot o hwyl, a fyddai hefyd yn gwasgu'ch pengliniau, pe na byddech yn ofalus. Mae gan *Wicksteed* lot i ateb drosto.

Mae pobl yn dweud ein bod ni i gyd yn cofio'n plentyndodau fel hafau heulog hir, ond yn wir, bydden ni yn chwarae mas lot. Roedden ni'n nabod pob stryd, pob lôn, ble i ffeindio mwyr duon, llus ac afalau. Yn gwybod ble byddai'r cŵn cyfeillgar yn byw, yn nabod eu henwau nhw ac yn chwarae gyda nhw yn y stryd. Byddai rhai mor gyfeillgar a lapio'u coesau blaen o gwmpas dy goes di a dawnsio o ochr i ochr. Weithiau, byddai oedolyn yn tarfu ar yr hwyl, galw'r ci i ffwrdd a rhoi stŵr iddo fe. "Aw, he was only dancing with me!", byddwn yn

cwyno.

Yn ogystal â nabod y llefydd da i chwarae ynddynt, roedden ni'n gwybod hefyd pa lefydd i'w hosgoi. Llefydd fel tŷ Mr. So-and-so, "Don't play outside there. His wife has died, and he goes to bed in the afternoon." Roedd dyn oedd yn byw yn y pentre a lofruddiodd ei wraig a mynd i guddio lan y mynydd rhag yr heddlu (yn ôl pob sôn) felly yn hollol naturiol roedden wrth ein boddau'n cnocio ar ei ddrws a rhedeg i ffwrdd lan y lôn, yn gwneud yn siŵr o osgoi baw gwyn ein ffrindiau pedwar pawen. Ond pa ffordd well o dreulio gwyliau'r ysgol na phrocio llofrudd (o bosib) i'ch ymlid?

Wrth gwrs, rydyn ni'n cofio'r hafau heulog hir, ond rhyngddynt nhw, roedd yn rhaid i ni fynd i'r ysgol.

Bues i'n eitha hoff o'r daith i'r ysgol. Byddwn i'n galw am fy ffrind Claire yn y bore. Dwi'n cofio eistedd ar y pafin yn aros amdani, yn procio clwt o dar gyda ffon yn anghofus. Roeddwn yn mynd heibio i dŷ Anti Maggie ac Anti Casi, a oedd wastad yn glanhau'r silff ffenestr, y stepen drws, neu'r cnociwr. Roedd arogl penodol yn perthyn i'r wâc i'r ysgol. Rhywbeth cysurus, ond yn llym ar yr un pryd. Dwi'n gwybod nawr mai mwg tân glo oedd yr arogl. Prin iawn dwi'n gwynto'r arogl y dyddiau hyn, ond weithiau dwi'n gallu, a chyn meddwl am beth yw'r arogl, mae fy ymennydd yn dweud "boreau ysgol".

Yn yr ysgol ei hun, roedden ni'n camu nôl ychydig o ddegawdau. Hen ysgol Fictoriaidd oedd hi, ac nid oedd yr agweddau ar y tu mewn wedi symud ymlaen llawer ers y dyddiau hynny chwaith. Er ei fod yn le gweddol hapus i fi, dwi yn cofio lot o ddefnydd o gwilyddio ac euogrwydd i wneud i'r

plant fihafio, sydd ddim yn beth neis mewn gwirionedd. Ro'n i'n dwlu ar gerddoriaeth a chanu, a oedd yn beth da, achos bod *assembly* bob bore gyda chaneuon a gweddïau. Roedd lot o emynau a lot o weddïo, mewn gwirionedd. Yn rhyfeddol iawn am ysgol Saesneg ei chyfrwng, roedd llawer o Gymraeg hefyd. Roedd nifer o'r athrawon yn siarad Cymraeg, a themlo dyletswydd i'w phasio ymlaen i ni'r plant.

Yn anffodus, ni roiodd neb gyfieithiad Saesneg i ni. Y canlyniad oedd fy mod i'n gallu canu "Oes gafr eto? Oes heb ei godro" a "Seiniwn ein telynu, canwn iddo ef" ac heb syniad o'r ystyr. Dim ond fod un ohonyn nhw'n rhywbeth am *different coloured goats*. Mae gen i deimladau cymysg am fy nyddiau ysgol. Ro'n i yn hapus yn yr ysgol, ond yr hyn a ddysgais i yn yr ysgol hon oedd paid â dangos dy hun, paid â brolio, dwyt ti ddim yn well na neb arall. Hyd yn oed nawr, os ceisaf i wneud rhywbeth, clywaf lais bach yn fy mhen yn dweud "Who do you think you are? You think you're something special, don't you?"

Beth oedd tyfu lan yn Nhreherbert? Efallai bydd hyn yn swino fel rhywbeth o gyfnod y rhyfel, ond creu ein hadloniant ein hunain. Byddwn yn gallu gwasgu pob eiliad o ddifyrrwch o ddarn hir o bren wedi'i adael, neu wneud yn fawr o goeden hawdd i'w dringo. Unrhyw beth i osgoi diflastod. Er mwyn cael dweud i ti gael dy fagu yn Nhreherbert, mae hi bron yn orfodol cael rhyw straeon am niweidiau difrifol a ddigwyddodd o ganlyniad i gwmpo ar goncrit yn y parc. Wrth feddwl am y peth, os na chafodd dy goes ei siago gan gi, oeddet ti rili yno?

DADENI


Rwy'n dechrau cofio rhywbeth a anghofiais ganrif yn ôl.
Ers amser maith bu fy llais yn gryg a gwag,
a'r llwch yn casglu yn fy llwnc, ond bellach
ni fydd geiriau a siaradwyd
gan fy nghyndadau'n ddieithriaid ar fy ngwefusau.
Codaf yr hen arfau ofer a chreu pethau newydd, pethau prydferth.
Palaf y pridd nes darganfod gwrymïau arian ac aur, fel edafedd,
a chreu tapestrïau prydferth o fy ngeiriau.
Fydda i byth eto'n teimlo'r gefynnau a'r cywilydd;
mae gennyf lais newydd,
a chanaf gân newydd, am y gorffennol ac am y dyfodol.
Llifith y geiriau fel nentydd y mynydd,
pob dafn, pob nodyn a phob gair newydd ei wedd.
Adnewyddir fy enaid ag angerdd ac aruthredd,
a chlywir fy nghân.

NERYS BOWEN

PYSGODYN GWNEUD

Pysgodyn gwneud yn y llaid coch
ar lan llyn gwneud llwydlas.
Taith fore Sadwrn i ffoi rhag tŷ
gwag sy'n ein denu ni ein tri
yn bell o'r dref a'r holl lefydd
y daethom i'w nabod yn ôl absenoldeb.
Yn y distrych bum milltir ar hugain o'r môr,
a'r Bannau'n chwythu'r dŵr
a gadwyd yn groes i oledd y cwm,
pefriai cen byw yn y gro.
Daeth yn rhydd yn fy nwylo
a'r bachau'n bŵl dan rwd,
a minnau'n dy ofyn,
dros udo diwedd yr hefin,
pam nad yw hwn yn nofio?
Tithau'n ei gymryd, a'th lygaid
yn meddal, a fi a'm brawd
yn gweld dy fod, am y tro, yn ôl,
fan hyn, a bod y palu byrfyfyr
yn codi haenau cudd ynot ti.
Soniaist am bysgota, am frithyll
a phenhwyaid, a ninnau'n syllu'n
syn i'r dŵr ffyrnig, yn methu â chredu
bod yna'r un peth byw mewn lle mor llwm.
Erbyn i'r ennyd basio, a'r glaw'n curo
cân o'r pinwydd, llithraist yn ôl
i dir neb yr olwg bell, a'n siarsio
i adael y peth 'na rywle mas o'r ffordd
rhag ei frath marw. Ond cadwon ni'r rhith
bysgodyn yn y co i gofio, flynyddoedd
wedyn, y claddwyd mwy na hynny yn y gro.

MORGAN OWEN




ADOLYGIADAU

SIÔN ELWYN | JUDITH MUSKER TURNER | SIÔN HYWYN |
GWEN SAUNDERS JONES | ELIS DAFYDD | CAIN MUSE | GARETH EVANS JONES

TIPIADAU

Llion Pryderi Roberts
Barddas ~ £8.95



Nid syniad newydd mo defnyddio 'amser' a'r 'cof' fel prif themâu i gasgliad o gerddi. Yn wir, mae'n thema boblogaidd sydd wedi ei chynnig ei hun i farddoniaeth ac i feirdd ar hyd y

blynyddoedd. Nid oedd ond angen edrych ar un o feirdd mwya'r Gymraeg yn fy marn i, Gerallt Lloyd Owen, i weld gallu'r ddau destun hyn i gyffwrdd pob un ohonom. Fodd bynnag, mae'r modd yr ymdrinnir â'r rhain yng nghyrol gyntaf o gerddi Llion Pryderi Roberts yn dipyn o chwa o awyr iach. Ac os nad oedd y cloc a theitl y gyfrol yn ddigon o gliw bod amser yn llinyn thematig, mae'r tri dyfyniad ar ddechrau'r casgliad yn tynnu pob amheuaeth.

Cyn i mi ddechrau darllen y testun yn iawn, rhedais fy mys trwy'r tudalennau a chael bod rhyw 72 o gerddi yn cyfannu'r casgliad, a amrywiai'n arw o ran eu mesur. Ceir popeth o sonedau, mydr ac odl a dau gywydd, i gerddi cwbl rydd a hyd yn oed un a ymdebyga'n fwy i ddarn o ryddiaith na barddoniaeth. Rhennir y 72 o gerddi'n 24 grŵp, tair i bob awr o'r cloc 24 awr ac yn y rhan helaeth ohonynt, ceir rhyw fath o gyfeiriad at amser mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Mae'n edrych yn debyg mai modd ydi'r gyfrol hon o roi atgofion y bardd ar gof a chadw cyn iddynt ddiplannu am byth, wrth inni gael ein tywys o brofiad i brofiad ac o atgof i atgof ganddo. Cawn ein harwain ar lwybrau atgofion melys (yn llythrennol felly yn y gerdd 'Knickerbobker Glory'!) a llwybrau galar a thristwch, megis yn y gerdd 'Eilers'. Ceir hefyd gerddi siom a sioc, a llawer yn seiliedig ar ymweliadau neu ar glywed neu weld pethau arbennig.

Un o'm hoff gerddi yn y casgliad ydi 'Dewiniaeth'. Yma ceir darlun effeithiol o ddiniweidrwydd plentyn, a sut mae oedolion yn 'ffugio rhyfeddod' wrth ymateb i'w sylwadau am y byd o'u cwmpas. Mae 'Ymddiheuriad' — cerdd am brofiad y bardd yn pasio'i hen gartref a chofio am ei blentyndod — hefyd yn un o'r uchafbwyntiau yn y gyfrol. Roedd 'Diolch ichi am ddod', 'Gwedd'i a 'Slofi' yn gerddi eraill a dynnodd fy sylw'n arbennig.

Wrth gwrs, mewn casgliad mor fawr, mae'n anorfod na fydd pob cerdd yn apelio at bawb, ac ni fu'r profiad yn wahanol i mi efo'r gyfrol hon. Teimlais bod ambell gerdd yn methu taro'r darlennydd rhwng ei ddau lygad gyda'r ergyd olaf, angenrheidiol honno (yn enwedig wedi adeiladu mor gelfydd yn ystod corff y gerdd). Enghraifft dda o hyn, i mi, yw 'Trysor' lle ceir adeiladwaith hyfryd, ond fod y pennill olaf yn syrthio'n fflat, braidd, a'r ystyr ychydig yn rhy annelwig. Tydw i ddim yn meddwl, chwaith, bod **pob** cerdd yn talu am ei lle, gwaetha'r modd. Codai achosion o ddarllen at yr hanner a meddwl 'dw i'm yn siŵr pam 'mod i'n darllen hwn erbyn hyn' yn weddol aml.

Siom fwyaf y gyfrol hon oedd bod rhai cerddi'n gorfodi rhywun i ailddarllen er mwyn ei deall, neu'n waeth byth, yn methu taro'r ergyd olaf wrth gloi. Wedi dweud hynny, roedd 'Tipiadau' yn cynnig amrywiaeth ar bob tudalen ac mae'n debyg y bydd pawb yn gallu uniaethu ag un neu ddau o'r profiadau a'r atgofion sydd ynddi.

LLYFR GLAS NEBO

Manon Steffan Ros

Y Lolfa ~ £8.99

Mae angen ail-Fabinogeiddio'n llenyddiaeth. Wrth drafod y Pedair Cainc, y pethau sydd dan sylw yw'r stori, y plot, y cymeriadau, yr arddull, a'r pethau hynny yn unig. Wyddom ni ddim pwy a'u hysgrifennodd, at ba ddiben, gyda pha agenda mewn golwg, a does dim ots gennym chwaith, felly nid yw'r 'awdur' yn cymhlethu dim ar bethau, nac yn ein gorfodi i ffitio ein dehongliad ni o



amgylch yr hyn a wyddom amdano ef neu amdani hi.

Dydi awdur gwael ddim yn cymhlethu dim ar bethau chwaith — os nad ydyn nhw wedi ysgrifennu rhywbeth gwerth chweil, does dim

ots pwy ydyn nhw gan nad oes neb yn darllen eu gwaith nac yn rhoi unrhyw sylw i'w barn a'u daliadau ar faterion eraill.

Ond mae awdur da, fel Manon Steffan Ros, yn gallu cymylu'r dyfroedd yn arw oherwydd ein bod yn ei chymryd hi, yn ogystal â'i gwaith, o ddifri. Gallwn gasglu, o'i sylwadau cyhoeddus ar Twitter ac mewn llyfyrdd eraill, ei bod ar y chwith yn wleidyddol, a'i bod yn erbyn ynni niwclear, ac wrth fynd ati i ddarllen *Llyfr Glas Nebo*, teimlwn fod y ffeithiau hynny yn hollbwysig.

Ond gwnaeth y ffeithiau hynny hi'n anodd i mi gysoni'r llyfr gyda'r ddelwedd gyhoeddus o'r awdur. Mae'r llyfr yn ei gwneud yn glir fod y chwalfa niwclear yn esgor ar gymdeithas y mae iddi ei rhinweddau, er gwaetha'r afiechyd a'r caledi; mae hi'n gymdeithas seml, wâr, ddifateroliaeth, anglobaleiddiedig. Mae'r bobl (y rhai sydd ar ôl) yn dod yn nes at ei gilydd. Mae Rowenna, ar sawl pwynt yn y nofel, yn gwrthod y bywyd y bu'n ei fyw gynt, a neges gwbl ddiawmws y diweddglu yw mai peth drwg yw'r ffaith fod y byd fel ag yr oedd yn dod yn ei ôl.

Cefais drafferth go iawn derbyn diweddglu'r llyfr. Gan fod llawer o'r drafodaeth ar y gyfrol wedi'i seilio ar ei safbwynt gwrth-niwclear, bûm yn meddwl am gryn amser fod ymateb Rowenna i'r hen fyd yn dod yn ôl yn un rhyfedd o adweithiol a cheidwadol. Nid yw'n meddwl am yr holl bobl eraill a oroesodd y Terfyn, nac yn ystyried y gallent fod mewn gwaeth sefyllfa na hi, hyd yn oed: eu bod yn byw bywydau erchyll mewn anhedd-dai aflan gydag afiechydon, llygod mawr a chocrotshis yn rhemp, a bod dychweliad gwareddiad yn cynnig gobaith iddynt. Synhwyrwn ei

bod yn credu na ddylai dim byd newid gan ei bod hi yn fodlon ar sut y mae pethau.

Dyma sylweddoli wedyn mai condemniad o'n bywyd a'n cymdeithas gyfoes yn eu cyfanrwydd sydd yma, ac nad yw ynni niwclear ond rhan fechan eithriadol, bron yn amherthnasol, o hynny.

Ergyd y diwedd glo yw ei bod wedi cymryd chwalfa niwclear – a difodiant yr hil ddynol, am a wyddai hi – i wneud i Rowenna deimlo fod ganddi unrhyw fath o reolaeth dros ei bywyd ei hun. Nid bod yn hunanol y mae hi ar y diwedd, ond galaru am y rheolaeth honno gan ei bod yn gwybod y bydd yn ei cholli wedi i'r hen drefn ail-ymsefydlu. O gyrraedd y casgliad hwnnw, mae'r nofel yn llawer mwy ingol, ac yn llawer gwell, ac ni allaf lai themlo y buaswn wedi'i gyrraedd yn gynt pe na bawn yn gwybod pwy oedd yr awdur cyn darllen.

Ac eto, ni fyddai'r llyfr wedi'i ysgrifennu pe bai'r awdur o blaid ynni niwclear. Synhwyraf efallai fod Manon Steffan Ros wedi bwriadu mynd ati i ysgrifennu un llyfr ond ei fod wedi newid i fod yn llyfr arall rywle ar hyd y daith, ond bod y drafodaeth a gafwyd ers yr Eisteddfod wedi'i seilio'n bennaf ar y llyfr cyntaf na ddaeth i fodolaeth.

Ond y pwynt yw na ddylai'r awdur fod yn ystyriaeth wrth ddarllen ac ymateb i waith llenyddol, yn y rhan fwyaf o achosion. Gall rhoi gormod o bwyslais ar y crewr ddrysu ein hymateb a'n dehongliad, a chyfyngu ar hawl pob darlennydd unigol i benderfynu beth yw ystyr unrhyw ddarn o lenyddiaeth. Dylem adael i'r gwaith, bob amser, siarad drosto'i hun.

*** Bu ymateb arall i Lyfr Glas Nebo ar wefan Y Stamp dros yr Haf. Gallwch ddarllen y darn hwnnw yma: <https://www.ystamp.cymru/single-post/2018/08/28/Ymateb-Llyfr-Glas-Nebo---Sioned-Haf-Thomas> - Gol.**

GOLAU

Dyfan Lewis

Gwasg Pelydr ~ £3.00

Prosiect amlgyfrwng yw 'Golau' Dyfan Lewis mewn sawl ffordd. Dechreuodd yn gyfres o ffotograffau ffilm haniaethol a cherddi ar Instagram, a bostiwyd yn wythnosol o ddiwedd mis Mai tan yr Eisteddfod, lle roedd nifer cyfyngedig o bamffledi o'r gwaith ar gael i'w prynu ar y maes. Ynghyd â phontio'r ffin rhwng celf weledol a barddoniaeth, felly, mae 'Golau' yn mynd ar draws cyfryngau digi-



dol a phrintiedig. Un o'r pethau mwyaf plerusus am y gwaith yn y ddau gyfrwng yw ei daclusrwydd – o arddull lân yr argraffiad i'r ffordd mae'r prosiect wedi ei gynllunio. Mae'n cyd-fynd â theitl a phrif

thema'r prosiect, ac mae rheoleidd-dra'r cyfansoddiad yn tynhau'r ffocws ar y ffotograffau a'r geiriau.

Peth dewr yw cyflwyno cyfres o gerddi haniaethol mewn hinsawdd farddonol sydd wedi rhoi ei bryd ar ddiriaethau a symrlwydd, ac yn ystyried 'tywyllwch' neu astrusrwydd yn wendidau ar y cyfan. Efallai mai dyna pam y defnyddia'r artist y term 'geiriau' i ddisgrifio'r hyn y mae wedi ysgrifennu yn hytrach na 'cherddi'. Neu efallai ei fod yn ceisio cryfhau'r cydbwysedd rhwng y gelf weledol a'r farddoniaeth: ar Instagram, mae'r pwyslais i'w weld ar y llun, ond ar ffurf llyfr yw mae yna duedd naturiol i flaenoriaethu'r cerddi a gweld y ffotograffau'n bethau ychwanegol. Ond wrth ystyried y ddau at ei gilydd mae'n amlwg pa mor gyd-ddibynnol yw'r berthynas rhyngddynt. Mae'r geiriau'n dod â'r sylwebydd yn agosach at y ffotograffau gan ehangu ar agweddau o'r profiad o'u creu, ond ar yr un pryd mae'r lluniau'n rhoi pendantrwydd i'r geiriau gan roi gwrthrych penodol yn ganolbwynt iddynt.

Er enghraifft, ar ddechrau'r gerdd gyntaf mae'n teimlo fel ein bod tu fewn i'r camera ei hun – nid tu ôl, hyd yn oed, ond tu fewn yn 'Y man nas llygrwyd/gan dameidiau llwch'. Mawrygir y tywyllwch yn y gerdd hon: 'Daw urddas o drigo/mewn lle o'r fath.' Mae'r golau'n rhywbeth sy'n tarfu ar y tywyllwch, ac yn dod â thrais ac anhrefn gydag ef. Adleisia'r syniad hwn y proses o weithio gyda ffilm — ysbrydolir ffotograffau'r prosiect hwn gan y camgymeriadau anfwriadol a'r 'ffactorau annisgwyl' sy'n 'gallu dylanwadu ar y peth rydych chi'n ei greu', yn ôl y ffotograffydd ei hun. Ond mae'r ddelwedd o olau'n ymyrru ar y tywyllwch hefyd yn drosiadol ar sawl lefel — mae'n dwyn i gof fythau'r creu, dechrau taith o anwybodaeth i oleuedigaeth, neu daith o'r groth at aeddfedrwydd. Oherwydd bod y geiriau mor gyffredinol, mae'n amhosib awgrymu dehongliad pendant.

Er hynny, edrychwch unwaith eto ar y ffotograffau sy'n cyfateb i'r gerdd hon ar ôl ystyried y geiriau o ddfiri, ac fe

welwch fod eich persbectif fel sylwedydd wedi newid. Mae'r ffotograffau wedi magu ansawdd tri dimensiwn, a'r "du eithaf" sy'n rheoli ochr chwith y lluniau'n mynd tu hwnt i ffiniau'r hyn a ddelir gan y lens, ac yn eich amgylchu. Mae'r pelydrau llachar, wedyn, yn torri trwy ganol y gofod tri dimensiwn hwn, ac rydych yn edrych arnynt o bellter, yn '[p]rofi heb deimlo/ creithiau'r pelydrau/ ar yr ochr draw'. Mae'r gair 'craith' yn rhoi'r teimlad bod gweithred y pelydrau o wthio trwy'r tywyllwch yn un dreisiol, ac mae'r geiriau 'ar yr ochr draw' yn eich atgoffa eich bod yn ddiogel tu ôl i ffin ddychmygol lens y camera. Er nad yw'r artist yn rhoi atebion am pam fod arno eisiau i'r sylwebydd brofi'r ffotograffau o'r safbwynt hwn, mae'n defnyddio'r geiriau i reoli lleoliad golwg y sylwebydd yn fanwl. Mae'r ffotograffau'n gweithio fel map, a'r geiriau'n gyfarwyddiadau.

Mae yna awgrym o naratif sy'n datblygu trwy'r pamffled, am daith o dywyllwch i olau - ac efallai am daith yr artist wrth iddo fagu'r hyder i rannu ei waith creadigol. Mae'n cyffwrdd ar themâu o wrthdaro, brad, cariad, unigrwydd ac aeddfedu. Mae rhai o'r cerddi â pherthynas amlycach i'r ffotograffau nag eraill, ac y rheiny sy'n apelio'n fwyaf ataf. Dyma ddechreuad fy hoff gerdd o'r casgliad:

'Wele!

Trasiedi ein hamser,
dau begwn byth yn cwrdd
dau mor debyg a gwahanol.

Sylwch ar y gwacter
a'r blerwch sy'n teyrnasu'n ei ganol.'


Ceir gweld y 'dau begwn' ar dop a gwaelod y ffotograff cyfatebol, sy'n troi'r tywyllwch rhyngddynt yn biws fel dwy wawr. Mae crafiadau a strempiau, y 'Pethau a anffurfiwyd', yn difetha llyfnder y llun, ond hefyd yn creu diddordeb. Mewn ffordd gywain, llwydda'r gerdd a'r llun gyda'i gilydd i awgrymu rhywbeth oesol am freuder a chymhlethdod perthnasau dynol: rhaid dewis rhwng 'ffolineb golau' neu '[dd]jiffyg llwyr'.

Mae'n rhaid treulio amser gyda'r cerddi a'r lluniau hyn i'w gwerthfawrogi, ond maent yn haeddu'r ymdrech. Ar ddechrau'r pamffled mae dyfyniad o gerdd o'r enw 'Evening Without Angels' gan Wallace Stevens. Agora'r gerdd honno â dyfyniad hefyd, gan yr athronydd Mario Rossi: 'the great interests of man: air and light, the joy of having a body, the voluptuousness of looking'. Mae'r pethau hyn i gyd i'w darganfod ym mhrosiect 'Golau'.

Yn ddfyr ddigon, mae dyfyniad o gerdd gan Wallace Stevens ar ddechrau'r gyfrol nesaf dan sylw hefyd ...

NOSTOS

Aled Jones Williams
Carreg Gwalch ~ £8.00



Pan glywais fod gan Aled Jones Williams gyfrol newydd ar fin cael ei chyhoeddi, roeddwn yn edrych ymlaen yn arw iawn. O ddarllen y gyfrol ar ddau eisteddiad,

medraf ddweud na chefais fy siomi. Dyma 'stori fer hir' (fel y dywed y broliant) sy'n cydio o'r dechrau; un sy'n swyno, yn ysgwyd ac yn cyffwrdd y darlennydd hyd y frawddeg olaf un, sydd hefyd yn hynod drawiadol.

Fel y mae teitl y gyfrol yn awgrymu, mae *Nostos* (y gair Groeg am 'gerdd sy'n disgrifio taith un yn dychwelyd adref'), yn dilyn gwraig yn dychwelyd i'w hen gynefin yng ngogledd Cymru. Yn yr un modd â gweithiau eraill o'r math, megis *Ulysses*, y mae'r daith yn un heriol, anghysurus, a rhyfedd. Mae'r cysyniad storiol hwn, felly, yn un cyfarwydd, ond mae'r ymdriniaeth ohono yn *Nostos* yn un hynod wreiddiol.

Dilyn gwraig o'r enw Elizabeth Scott-Palmer, darlithydd mewn Athroniaeth ac arbenigwr ar waith Descartes, wrth iddi ddychwelyd i Flaenau Seiont, ei hardal enedigol, a wnawn. Buan y down i wybod am hanes cythryblus Elizabeth, neu 'Bet', fel y caiff ei hadnabod. Dysgw'n fwy am y rhesymau dros ei dychweliad a gwelwn gryn ddatblygiad (neu ddirywiad?) yn ei chymeriad wrth i'r nofel fynd rhagddi. Wna'i ddim dweud gormod rhag difetha'r stori, ond mae'r daith y mae Bet yn ei chymryd ar ôl dychwelyd hefyd yn ingol tu hwnt.

Mae yma hiwmor tywyll yn hydreddio'r gwaith a hynny'n aml wrth ymdrin ag amryw themâu, gan gynnwys galar, unigrwydd, iechyd meddwl, tlodi, ac anghyfiawnder cymdeithasol; themâu y mae peryg baglu i dir sentimentaleiddiwch wrth eu trafod, ond nid felly yn y gyfrol grefftus hon.

Mae i'r gwaith gyfuniad o'r llenyddol a'r llafar, ac mae'n debyg y bydd y defnydd o Saesneg a'r Saesneg-


ffonetig-Gymreig yn derbyn beirniadaeth gan rai darllenwyr, ond, roeddwn i'n hoff iawn o hynny. I mi, roedd y defnydd o'r Saesneg yn talu am ei le gan iddo adlewyrchu cymdeithas gyfoes a chyfleu llawer am y cymeriadau. Yn wir, roedd sillafiad enw 'Tjeryl' yn adrodd cyfrolau!

Fel sy'n nodweddiadol o waith Aled Jones Williams, mae'r ysgrifennu'n ingol o gain a chawn ein taflu'n gyson o'r naill emosiwn i'r llall, gan chwerthin yn ein dagrau a chrio trwy'n gwenau. Yn wir, mae sawl disgrifiad a chymal yn dal i ganu'n y cof, a hynny am fod tinc gwirebol i'r dweud – sy'n dwyllodrus o syml – megis: 'Yr oedd cysur i ddyn ar ei ben ei hun yn sw'n letyrbocs yn agor ac yn cau', a 'Môr yw'r meddwl, dirnadodd. Y rhan helaethaf ohono o'r golwg yn ddyfnder anghyffwrdd.'

Yn wir, epig fodern yw'r stori fer hir hon, a byddwn yn annog pawb i'w phrynu, ei darllen, a'i hailldarllen.

CODI LLAIS

Gol. Menna Machreth
Y Lolfa ~ £7.99



Pan glywais am gyhoeddi'r gyfrol hon dan olygyddiaeth Menna Machreth, roeddwn ar binnau i fynd ati i'w darllen. Nid yn unig oherwydd fy mod â diddordeb mewn amryfal agweddau ar lais y

ferch yng Nghymru, ond hefyd am ei bod yn hen bryd clywed safbwyntiau amrywiol am fywydau merched Cymreig heddiw.

Ceir trawstoriad eang ymhlith yr 13 o gyfranogion; o Elliw Gwawr ac Elin Jones, sy'n trafod eu profiadau ym myd gwleidyddiaeth; Rhiannon Marks, sy'n ymddiddori mewn agweddau ffeministaidd ar ein llenyddiaeth; Mari McNeill, â'i phrofiadau gyda gwaith y mudiad Cymorth Cristnogol; Enfys Evans, gydag amaeth yn gefnlen i'w llythyrau, a Lisa Angharad a Kizzy Crawford, dwy sy'n adnabyddus fel cantorion.

I mi, canfyddir uchafbwyntiau'r gyfrol hon yn yr ysgrifau hynny sy'n trafod profiadau go iawn, oherwydd mai yn y rhain y ceir gwreiddioldeb, mewnwelediad i fydoedd a all fod yn ddieithr i ni a chipolwg ar natur benderfynol y merched hynny yn erbyn

unrhyw rwystrau a wynebant.

Yn hynny o beth, mi ddysgais lawer o ysgrif Sara Huws, a'i hymdrech i gael cerfluniau cyhoeddus o ferched yng Nghaerdydd, wedi'i sylweddoliad bod cymaint ohonynt yn y brifddinas, a phob un yn ddyn! Fe sonia hefyd am sut y sefydlodd yr *East End Women's Museum*. Y mae'r modd yr aeth ati gyda'i ffrind i wneud hyn mewn cyfnod cymharol sydyn o amser yn ysbrydoledig, a'r croeso a gawsant gan wahanol sefydliadau'r un mor galonogol. Mae Sara'n taro'r hoelen ar ei phen wrth iddi ddweud:

Mae rhywbeth syml, fel rhoi enw ar wyneb i rai o'n cyd-deithwyr ni yn rhywbeth mor werthfawr. Yn bersonol, mae'n neud i fi deimlo fel taswn i'n perthyn ...

Fe wnes i hefyd fwynhau'r gonestrwydd gan Meleri Davies, 'Gwreiddio', a'i her i gael y cydbwysedd cywir rhwng y teulu a'r gwaith. Fe ysgrifenna am ofynion ei swydd brysur mewn manylder, ac fe ddatgela rai o'r gwirioneddau a ddaw i'r amlwg yn sgil ail-gydio yn y gwaith wedi cyfnod mamolaeth hefyd.

Yn ogystal â'r mewnwelediadau personol, ceir cipolwg ar y ddeinameg rhwng merched a dynion wrth weithio, a'r modd y bu iddi orfod dysgu caledu ei hun o ganlyniad. Roeddwn wrth fy modd gyda geiriau clo Meleri i'r darn; geiriau sy'n sicr o daro tant gyda sawl mam rwy'n siŵr:

Dwi'n fam, dwi'n weithwraig galed, dwi'n fi. Mi goda i fy llais, ond dwi ddim yn dda am weiddi ... Ymrwymiad i'm teulu, i'm cymuned a'm gwaith – dyma sy'n rhoi cryfder i mi ... Dyma sy'n fy ngwreiddio.

Mae fy hoff ddarn gan Siân Harries, sy'n trafod y gwahanol rwystrau a wyneba'r ferch, boed hynny'n gymdeithasol, yn ei swydd, neu o ran ei hiechyd. Mae ei gwaith yn aros yn y cof yn arbennig am iddi drafod rhywbeth sydd heb gael fawr o sylw, os o gwbl yn y Gymraeg (hyd y gwn i), sef profiad merch o gael *smear test*.

Ydy hi'n bosib ymlacio wrth syllu ar nenfwd? O 'mhrofiad i, mond pethe gwael sy'n digwydd fel rheol...

Ond er iddi ddelio â'r sefyllfa anghyfforddus hon â llawer iawn o hiwmor a wnaeth i mi chwerthin yn uchel

sawl gwaith, ceir tro difrifol wrth i'r nyrs ddatgan ei bod ag endometriosis. Wrth iddi fynd i'w gwaith wedi'r newyddion a chael trafferth dal pen rheswm gyda dynion mewn cyfarfod sgript, gwelwn ei llesteiriant, ynghyd â'r diffyg gweithredu gan y doctoriaid gwrywaidd cyn ei diagnosis, yn berwi drosodd i'w gwaith: "Y dynion sy 'di ca'l y llinellau i gyd yn fy mywyd i hefyd." Dyma linell rymus, ddeublyg ei hystyr.

Credaf fod y darn hwn hefyd yn ffordd o grisialu'r holl gyfrol. Ceir digon o hiwmor, yn gymysg â'r difrifol; y ffeithiol a'r creadigol; elfennau sy'n gwylltio, yn ogystal ag ysbrydoli; ond yn bwysicach oll, mae'r merched i gyd wedi ysgrifennu darnau sy'n peri i ni feddwl.

Gyda chyfoeth o amrywiaeth o ran cyfranwyr ac arddulliau, mae'n deg dweud fy mod i wedi mwynhau *Codi Llais* o'i dechrau i'w diwedd. Er bod y golygydd, Menna Machreth, wedi ysgrifennu cyflwyniad ar ddechrau'r gyfrol, byddai darn ganddi hi'n sicr wedi bod yn werth ei ddarllen, â'i phrofiadau toreithiog fel cyn-Gadeirydd Cymdeithas yr Iaith, a'i thaith i Lausanne i siarad am ei ffydd, ymysg pethau eraill. Efallai y byddai hyn yn syniad ar gyfer ail gyfrol!


Apêl fwyaf y gyfrol hon yw hygyrchedd y dweud, a'r modd y gallai unrhyw unigolyn, boed yn ferch neu'n ddyn, ei phrynu a'i mwynhau.

NANSI LOVELL

HUNANGOFIANT HEN SIPSÍ

Elena Puw Morgan

Honno ~ £9.99



Braf oedd cael ailgydio yn *Nansi Lovell*, nofel a glywais ddiwethaf wrth i'm mam ei darllen i mi'n blentyn.

Atgoffwyd fi o'r cymeriadau

llywgar, y disgrifiadau hardd

a'r stori drist a oedd wedi fy hudo'n blentyn, ond oedd wedi cael eu colli i niwl amser.

Mae'r stori wedi ei rhannu'n ddau naratif sy'n cyd-redeg – y ddwy yn sôn am berthynas nain a'i wyres. Mae'r stori wedi ei chyflwyno mewn arddull llythyr, sy'n pwysleisio'n wych perthynas nain a'i wyres. Er ei bod hi'n stori syml sy'n dilyn trefn linear hunangofiant traddodiadol, mae'r ddwy stori baralel yn rhoi dyfnder iddi, trwy ddyblu cymeriadau: Nansi'n ferch ifanc yn byw mewn tŷ efo nain sy'n Sipsi ddiethr, a

Nansi'n wraig hen yn ddieithr i'w wyres ifanc hithau, sydd hefyd yn byw mewn tŷ erbyn diwedd y nofel.

Mae'r nofel yn diferu o hiraeth am amser a fu, am bobl sydd wedi mynd, ac am deulu na fydd byth yn adnabod byd eu nain. Dau fyd gwahanol sy'n bodoli yma, byd y Sipsiwn, a byd y "giorgios" sef pob nad ydynt yn sipsiwn, a Nansi Lovell yn ymlwybro rhwng y ddau. Drwy roi llais Nansi Lovell o fewn llythyrau i'w wyres estron, daw llais yr hiraeth trwodd ym mhob twll a chornel yn y nofel, fel na ellir anghofio fyth y tristwch sy'n bodoli dan yr wyneb.

Er ei bod wedi cael ei magu fel Sipsi, gyrrir Nansi i ffwrdd oddi wrth ei llwyth er mwyn cael addysg, a'r datgysylltiad yma sy'n achosi trafferth i Nansi ar ôl marwolaeth ei nain pan ddechreu deimlo fel mwy o giorgio nag o Sipsi, gan arwain at ei phenderfyniad i briodi Madog Wyn.

Nofel am ddewis yw hon felly, dewis rhwng addysg yr awyr agored ac addysg llyfrau, dewis

rhwng cariad ei phlentynod ac arglwydd pwerus y plasty lleol, dewis rhwng ei hunaniaeth a'i diwylliant hi ei hun, ac enw da ei gŵr bonheddig. Syrth y dewisiadau hyn yn drwm ar ysgwyddau Nansi, sydd drwy'r sialensau yma yn ei bywyd yn saernïo'i chymeriad a chryfhau ei hewyllys.

Mae gallu Elena Puw Morgan i saernïo nofel gymleth a dyfnder iddi yn ogystal a chadw'r stori'n syml a gwledig yn amlwg, ac er i mi weld y nofel yn gyntaf fel nofel weddol syml, cefais fwynhad mawr ohoni. Nofel sy'n llawn haeddiannol o gael ei hail argraffu ac edrychaf ymlaen i'w ailddarganfod unwaith yn rhagor wedi rhyw ugen mlynedd arall!

ADRA


BYW YN Y GORLLEWIN CYMRAEG

Simon Brooks

Y Lolfa ~ £9.99

Mae rhaid edmygu Simon Brooks am allu cyflwyno sylwebaeth athronyddol graff gan gadw naws hoffus sy'n ymdebygu i hen bennod o "C'mon Midffild". Mae'n siŵr eich bod yn amau effeithiolrwydd y fath 'mash-up', ond rwyf innau erbyn hyn yn ei gweld hi'n anodd dychmygu ffordd fwy triw i'r Gymraeg o archwilio bywyd yn y Gorllewin na thrwy gadw Bryn Coch mewn cof.

Wrth gwrs, nid Bryn Coch sydd ar feddwl Simon Brooks, ond ei gartref mabwysiedig ym Mhorthmadog – 'Port' i'r brodorion Cymraeg. Gan ddilyn 'Wltras Port' o faes i faes pêl-droed drwy gydol y tymor "ffwtbol", mae'n myfyrio natur



perthyn i rywle, a'r ffaith fod y lle, ei hanes a'i ddiwylliant yn perthyn i'r bobl. Yn sgil hynny mae'n rhoi cyfrif personol sy'n pigo cydwybod am ei le o yn y gymunedfel 'dyn dwad'. Mae'n pendroni'r

bygythiadau i ddyfodol y gymuned honno, megis y bygythiadau sy'n wynebu llawer o gymunedau dosbarth gweithiol, ôl-ddiwydiannol sy'n wynebu sialensiau tebyg ledled y deyrnas gyfunol. Mae cysgod Brexit ac yr ansicrwydd sydd wedi'i ddilyn yn treiddio pob tudalen.

Ond mae llygaid Brooks yn sefydlog ar 'Port' a dyfodol y Gymraeg yno, ac mae'n rhoi sylw arbennig i broblemau sydd yn teimlo bron yn holl-bresennol i rywun sydd wedi eu magu yn y gogledd orllewin Cymreig, ond sydd yn aml yn cael ei esgeuluso gan Gaerdydd a San Steffan. Mae effeithiau 'austerity' ar gynghorau lleol, mewnfudo Saesneg heb ystyriaeth o'r Gymraeg yn ogystal a dadryddfrenio gwleidyddol yn cyfrannu at y teimlad o erydu cyffredinol cymunedau fel 'Port'. Yn sicr, mae'n adrodd stori gyfarwydd iawn o golli rheolaeth a phŵer, ond mewn cyd-destun gwbl leol.

Oherwydd ei fod wedi edrych ar faterion sy'n pwyso'n drwm ar y Cymry drwy lens y clwb pêl-droed a'i gymeriadau, mae gwythien obeithiol yn pwmpio o galon y gyfrol. Gellir gweld clybiau pêl-droed fel ymgorfforiad o gymeriad unrhyw dref; 'Y Traeth' fel tir sanctaidd i'r gymuned ymgynnull arno, a chatharsis emosiwn colli neu ennill gêm fel therapi i ddynion sydd bellach heb le mor amlwg yn y byd. Ond yn fwy teimladwy na hynny ydy'r ffaith ei fod wedi ei ysgrifennu i'w fab, sy'n ei alluogi i ddistyllu ei boendodau cymhleth mewn ffordd dyner a personol.

Mae peryg i'r gair 'Hiraeth' gael ei ddiystyru gan y diwydiant twristiaeth a chrefftau, o fod yn air unigryw i'r Gymraeg, am yr union rheswm ei fod yn unigryw i'r Gymraeg. Mae'n cyfleu mwy na methiant neu ddyhead – mae wedi'i wreiddio mewn lle diriaethol, ac mae'r teimlad yn ddwys a chymhleth. Dyma sydd ganddom ym myfyrdodau Simon Brooks. Rhyw gnoi anghyfforddus sy'n dod o garu rhywle, a'i weld yn dirywio. Nid hiraeth ar ôl gadael, ond hiraeth am ffordd yr oedd hi'n arfer bod, a beth sy'n cael ei adael ar ôl i'r genhedlaeth nesaf. Er ei besimistiaeth, mae gronyn o obaith i'w chael ar y cae "ffwt" bora Sadwrn.

ADNABOD YR ARTISTIAID SIÔN TEIFI

Clawr ar gyfer prosiect cerddorol



Daw Siôn Teifi Rees o

Bontrhydfendigaid yn wreiddiol. Ar ôl cyfnodau yn astudio yng Nghaerfyrddin a Chaerlŷr, mae bellach wedi cychwyn ar gwrs Gradd mewn Celf Gain ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae'n artist amlddisgyblaethol sydd yn ei eiriau ei hun 'wastod wedi 'neud tipyn bach o bob dim'. Ers bod yn yr ysgol gynradd, mae'n cofio bod wrthi'n lluniadu ac yn creu. Mae cerddoriaeth hefyd yn rhan bwysig o'i fywyd.

Ymysg ei ddylanwadau mae'n

rhestru Peter Van Agtmael (@pvanagtmael ar Instagram) ac Alec Soth fel rhai sydd wedi creu argraff arno o ran ei waith ffotograffiaeth, ac Aitor Throup (@aitor_throup ar Instagram) o ran ei waith lluniadu. Yn debyg i Aitor Throup, sydd yn rhedeg *THE DAILY SKETCHBOOK ARCHIVES* o'i gyfrif Instagram, bu Siôn rhwng Gorffennaf a Medi eleni yn rhannu *blind drawings* dyddiol o unigolion o'i gwmpas. Cynnyrch hyn yw'r 52 portread y mae Rhys Trimble wedi ymateb iddynt ar dud.

10-11.

Fel rhan o'i gwrs Sylfaen, tynnodd gyfres o ffotograffau yn dogfennu bywyd ei fodryb, Angela. Cyrhaeddodd un o'r portreadau (a welir uchod) 100 uchaf y gystadleuaeth 'Portrait of Britain' eleni, ac mae ar hyn o bryd yn cael ei arddangos ledled Prydain.

Mae'n gweld ei gyfnod newydd yn y brifysgol yn gyfle i gychwyn ar brosiect newydd, a mynd 'nôl at beintio, falle'.

>> @jezgym / @sionteifirees

KARIN IRÉNE ANDERSSON


Artist Swedaidd ydi Karin Andersson sydd bellach yn byw ac gweithio yn Gothenburg. Wedi tair blynedd ar ddeg o fyw yn y ddinas mae ganddi hi dŷ ei hun gyda'i phartner ac yno mae hi'n treulio'i dyddiau yn gweithio, bwyta ac edrych ar ôl ei phlanhigion. Ers iddi raddio o'r HDK (Academi Dylunio a Chrefft Gothenburg) yn 2017 mae hi wedi bod yn gweithio fel dylunydd llawrydd.

Mae hi wedi bod yn creu celf erioed — bu ei rhieni yn ei hannog i fynd ati pan yn blentyn ac roedd digonedd o adnoddau a chyfleoedd ar yr aelwyd i wneud hynny. Mae ei diddordeb pennaf o ran dylunio mewn dyluniad patrymau ar gyfer tecstilau a defnydd mewn adeiladau er ei bod hefyd yn gweld gwerth artistig ehangach i batrymau. Caiff ei hysbrydoli gan fywyd o ddydd i ddydd yn ogystal â natur, geometreg a chyfyngiadau.

Wrth fwrw ati gyda'i gwaith mae

hi'n defnyddio gridiau i osod rheolau iddi'i hun wrth wneud lluniau. Teimla fod y cyfyngiadau yn creu rhyddid newydd i arbrofi. Er bod ei gwaith yn aml yn haniaethol mae hi hefyd yn gwneud darluniau, ac un enghraifft o hynny yw'r patrwm fagina. Darlun ar gyfer traethawd gan ffrind oedd hwn yn wreiddiol, darn a oedd yn trafod pam fod trafod y fagina yn beth pwysig. Mae Karin yn ei weld o'n ddychrynllyd braidd fod cyn lleied o drafod ar y fagina ac adnabyddiaeth ohoni yn ein cymdeithas a bod dysgu a thrafod mwy yn hanfodol ar gyfer cydraddoldeb. Mae pawb yr un mor unigryw ond yr un mor bwysig hefyd!

Ar hyn o bryd mae hi'n gweithio ar gynnyrch ar gyfer ei siop ar y we — printiadau a deunydd papur yn bennaf ond gwaith tecstilau hefyd ac wrth gwrs, patrymau fel yr un sydd yn y rhifyn hwn.



>> @karin.irene.andersson
karinireneandersson.com

MARIAN BROSSCHOT

Marian Brosschot o Ben Llŷn sydd yn gyfrifol am y gwaith celf sydd ar glawr y rhifyn hwn o'r *Stamp*. Astudiodd Marian gelf fel pwnc Lefel A yng Ngholeg Meirion Dwyfor Pwllheli cyn mynd ymlaen i astudio gradd mewn Sbaeneg a Chymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Bu'n diwtor Saesneg yn Sbaen am gyfnod ac mae hi bellach yn ôl yn ardal Pwllheli yn gweithio fel tiwtor Cymraeg.

Bu ei darn 'Fy Nghymru I' – a wreiddiodd mewn syniadau a oedd yn rhan o'i phrosiect yn ymwneud â mapiau yng Ngholeg Meirion Dwyfor – yn neilltuo boblogaidd.

Bu peth o'i gwaith – tecstilïau gan fwyaf – ar furiau Oriell Plas Glyn y Weddw rhwng Ionawr a Mawrth 2017 fel rhan o arddangosfa ar y cyd ag Elin Huws ac artistiaid lleol eraill. Cafwyd arddangosfa ganddi yng Nghaffi Croesor yn ystod Haf 2017.



Chwith: Enghraifft o'i gwaith tecstilïau; Dde: *Fy Nghymru I*

Dywedodd hyn am y gwaith ar y clawr:

"Y broses ei hun oedd yn bwysig wrth wneud y cylchoedd. I mi mae'n broses fyfyrgar iawn. Dw i wedi bod yn darllen ac yn gwneud llawer efo *mindfulness* dros y blynyddoedd diwethaf ac yn trio dod â fo yn rhan o 'mywyd bob dydd ac yn rhan o'r broses o wneud gwaith celf. Dydy ymgolli eich hun mewn darlunio ddim yn rhywbeth newydd ond ro'n i'n licio'r syniad o fyw i'r eiliad go iawn wrth wneud rhywbeth oedd ddim yn neilltuo ddiddorol. Hynny ydy, mae'n fwy o sialens eich cadw eich hun yn y foment pan dach chi'n gwneud rhywbeth ailadroddus sydd yn medru mynd yn ddiflas ar ôl tipyn! Mae cylch yn siâp sy'n gysylltiedig â bywyd a pharhad ac ati felly roedd rhyw deimlad organig, naturiol i'r broses hefyd.

Rŵan, y staeniau. Roedd gen i syniad y tu ôl y cylchoedd 'ma, a'r syniad hwnnw oedd creio arnyn nhw. Rôn i isio dal y teimlad 'ma o rhyw hiraeth chwerw-

felys am rhywbeth oedd wedi bod – bod rhywbeth oedd yn arfer bod yn 'dda' ac yn 'gyflawn' ac wedi cymryd amser maith i'w greu a'i adeiladu, yn medru newid mewn eiliad a bod hi'n amhosib clicio 'undo' neu 'delete' neu 'edit' mewn bywyd go iawn. Fedrwrch chi ddim mynd yn ôl i newid pethau.

Felly y cyferbyniad llwyr rhwng mireinder manwl y broses fyfyrgar a'r dagrau cyflym oedd yn rhoi cic i mi yma. Yn anffodus dim ots be on i'n wneud, wnes i ddim llwyddo i grio ar yr amser iawn pan oedd y gwaith wrth law. Wnes i sylwi hefyd bod angen crio lot o dagrau i wneud iddyn nhw bowlïo i lawr eich bochau go-iawn. Ac mai nid peth hawdd ydy gwneud eich hun grio pan dach chi isio casglu'r dagrau! Arbrawf diddorol 'de! Plan B felly oedd gwneud yn hollol groes i be fasech chi'n wneud efo gwaith celf dach chi wedi treulio oriau arno. Yn lle ei gadw'n saff mi adawes i o ar fy nesg a pheidio poeni dim am be fasa'n digwydd iddo. Bod yn fwriadol flêr. A

dyma'r canlyniad. Dw i'n licio'r teimlad mae'r gwaith yn ei dynnu i'r wyneb wrth i mi edrych arno – y ddeuoliaeth rhwng derbyn pethau fel ac y mae nhw neu gresynu am fod pethau wedi cael ei sbwylïo.

Dw i'n bwriadu chwarae mwy efo'r syniadau yma yn y dyfodol, pwy a wŷr ym mha ffurf!

Prosiectau eraill sydd gen i ar y gweill ydy gwaith tecstilïau. Dw i wedi bod yn gweithio ar wahanol groglunïau dros y blynyddoedd, gan gasglu hen ddefnyddiau o bob man. Mae 'na farchnad ddefnyddiau ffantastig yn Utrecht yn yr Iseldiroedd. Mae dillad yn cael ail-fwyd gen i hefyd, cyn iddyn nhw cael eu cysidro ar gyfer siopau ail law. Ar y funud dw i'n gweithio ar groglun du (ia, du!). Proses llawer arafach ydy'r rhain, yn enwedig pan does 'na ddim llawer o amser! Ond yr un bleser ydy ymgolli fy hun yn y broses.

>> facebook.com/marsbross.celf/

! A R T I S T I A I D !

Hoffech chi weld eich gwaith celf rhwng – neu ar – gloriau'r cylchgrawn hwn? Rydym wastad yn chwilio am waith newydd gan artistiaid o bob math - cysylltwch: golygyddion.ystamp@gmail.com

Y STAMPWYR

YN NHREFN EU HYMDDANGOSIAD YN Y RHIFYN

Marian Brosschot

(Gweler gyferbyn)

Miriam Elin Jones (Gol.)

@miriamelin23

miriamelinjones.cymru

Arallfydwraig yn Rhondda Cynon Taf, arbenigwraig ffuglen wyddonol yn y Gymraeg, newyddiadurwraig a llenor o Lanpumsaint, Sir Gaerfyrddin yn wreiddiol. (tud. 4-5)

Paul Eastwood

paul-eastwood.net

Mae Paul Eastwood yn artist o Wrecsam, gydag ymarfer sy'n archwilio celf fel ffurf o gynhyrchiad cymdeithasol ac adrodd straeon diwylliannol. Mae Paul yn gweithio mewn amrywiaeth eang o gyfryngau – testun, cerflunwaith, perfformiad, fideo, darlunio, print a thecstilau. Mae'n ysgrifennu testunau ffuglennol i archwilio sut y gall lle a gwrthrychau gydnabod hunaniaeth ddiwylliannol. (tud. 6)

Siôn Teifi Rees

@sionteifirees

Gweler tud. 35 (tud. 8-9, 35)

Rhys Trimble

@rhystrimble

Mae Rhys Trimble yn fardd sydd yn ysgrifennu, cyhoeddi, perfformio, canu a chreu gwaith gweledol a byrfyfyriol yn Gymraeg a Saesneg. (tud. 8-9)

Gruffudd Eifion Owen

@Gruffudd_Owen

Mae Gruffudd Owen yn fardd, sgwennwr, sgriptiwr, jygllwr a heliwr priciau sy'n gweithio ar ei liwt ei hun. Os ydych chi ishio rwbath wedi'i sgwennu, neu os oes ganddoch chi beli i'w jyglo neu briciau i'w hel, cofiwch amdano. (tud. 10)

Emyr Lewis

@EmrysWeil

Ganwyd Emyr yn Llundain, magwyd ef yng Nghaerdydd ac mae'n byw yng Nghraig-cefn-parc. Enillodd gadair yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1994 a'i choron ym 1998. *twl lol* yw ei drydydd/bedwerydd casgliad o gerddi. (tud. 11-13)

Angharad Dafis

Enillodd nofel fer Angharad, *Rhian*, wobwr ar gyfer sgrifenydd newydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan oedd yn un ar hugain oed. Testun ei gradd uwch oedd 'Agweddau Gwleidyddol y Nofel Gymraeg 1950-60', a bu darllen a didol diadell nofelau'r ddau ddegawd hwnnw yn rhagbaratoad da ar gyfer ei gwaith diweddarach fel golygydd. Mae wedi gweithio gyda rhai o awduron mwyaf blaenllaw Cymru. Bu'n feirniad cystadleuaeth Meddal Ryddiaith yr Eisteddfod ddwy waith yn 2000 a 2016. (tud. 11-13)

Esyllt Lewis

@EsylltLewis

Graddiodd Esyllt o Brifysgol Caerdydd eleni wedi iddi astudio gradd mewn Cymraeg ac Athroniaeth. Mae'r cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng y ddau bwnc o ddiddordeb mawr iddi, ac fe hoffai weld rhagor o drafodaeth am Athroniaeth yn Gymraeg. Ar hyn o bryd mae'n gweithio fel cyfieithydd yng Nghaerdydd. Hoffai ddilyn gyrfya yn y byd celf yn y pen draw. (tud. 11-13)

Mari Huws

marihuws.com

Ma' Mari'n ferch o Ddyffryn Nantlle sydd yn mynd ati i ddogfennu'r effaith ma' dyn yn ei gael ar y byd mewn ffyrdd creadigol. Daw'r straeon yn y rhifyn hwn o linell llanw Ynys Enlli, fis Chwefror 2016. (tud. 14-15)

Llio Maddocks

@llioelain

Gyrru o gwmpas Seland Newydd mewn camper mae Llio ar hyn o bryd. Hi sy'n ysgrifennu cylchlythyr misol Menywod Cŵl Cymru, a bydd ei nofel yn cael ei chyhoeddi yn 2019. (tud. 16)

Karin Iréne Andersson

karinireneandersson.com

gweler tud. 35 (tud. 17, 35)

Siôn Tomos Owen

@sionmun

Mae Siôn Tomos Owen yn ddarlunydd, awdur, bardd, cyfansoddwr a chyflwynydd o Dreorci yng Nghwm Rhondda. Mae'n rhan o dîm cyflwyno *Cynefin* ar S4C ac yn ymddangos ar gyfresi *Jonathan* yn canu a chartwnio. Mae'n gweithio ar ei nofel graffeg, cyfres o lyfrau i blant a chyfrol o gerddi Saesneg a Chymraeg i'w gyhoeddi yn 2019/20. (tud. 18-19)

Gweni Llwyd

@gwenillwyd

gwenillwyd.com

Artist sy'n gweithio gyda fideo, gosodiad a sain yw Gweni Llwyd, gan ddefnyddio profiadau ar-lein ac all-lein fel manau cychwyn. O Ddyffryn Nantlle yn wreiddiol, mae Gweni bellach wedi ei lleoli yng Nghaerdydd ac mae wedi arddangos ei gwaith ledled Cymru, yn yr Eidal ac ar-lein. Derbyniodd Ysgoloriaeth Artist Ifanc yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. (tud. 20-21)

Caryl Bryn

@CarylBryn

Daw Caryl Bryn o Amlwch yn wreiddiol, ond mae wedi ymgartrefu yn Llanberis erbyn hyn ac yn astudio MA Ysgrifennu Creadigol ym Mhrifysgol Bangor. Cyhoeddir ei chyfrol gyntaf, *Hwn ydy'r llais, tybad?* yn 2019. (tud. 24)

Ann Barlow
@heulwenann

Merch hynaf Sam Jones yw Ann, sydd wedi ymgartrefu yn Swydd Gaer ers bron deugain mlynedd. Yn addysgwraig sydd bellach wedi ymddeol, hi fu'n gyfrifol am drosi cerddi'r gyfrol o lawysgrifen i ffurf electronig, a pharatoi detholiad i'r wasg. Byddai ei gwaith wedi bod llawer yn haws pe bai ganddi spellchecker Cymraeg ar ei chyfrifiadur! (tud. 26-27)

Mary Sinclair
@EMarySinclair

Wedi gorffen yn yr ysgol, gadawodd Mary'r ardal i fynd i Goleg Cyncoed, Caerdydd, ac yna i Ysgol Gymraeg Bryntaf fel athrawes. Ym 1980, symudodd i'r Alban gyda'i gŵr gan barhau ar ei gyrfa ym myd addysg a magu dau o blant. Ar hyn o bryd mae hi a David yn byw ym Mhrâg. (tud. 26-27)

Gwen Màiri Sinclair
@gwenmairi

Telynores yw Gwen, merch Mary. Cafodd ei geni a'i magu yn yr Alban ac mae'n cadw'i hunan yn brysur gyda'i gyrfa gerddorol. Mae ganddi ddiddordeb arbennig yng ngherddoriaeth werin Cymru a'r Alban. (tud. 26-27)

Nerys Bowen
@NerysBowen

Cafodd ei magu yn y Rhondda ar aelwyd ddi-Gymraeg. Astudiodd gerddoriaeth ar ôl ymadael â'r ysgol, gan droi yn ôl at ddysgu'r Gymraeg fel oedolyn – y penderfyniad gorau iddi ei wneud erioed! (tud. 28-29)

Morgan Owen
@morgowen

Bardd yw Morgan Owen a chyfrannwr cyson i gyhoeddiadau Cymraeg. Fe ddaw o Ferthyr Tudful, er y ei fod ar hyn o bryd yn preswyllo yng Nghaernarfon. Roedd yn un o 20 awdur o Gymru a oedd yn rhan o gynllun Awduron wrth eu Gwaith yng Ngwyl y Gelli eleni. Ef oedd bardd Arddangosfa Bensaerniol y Lle Celf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd eleni. (tud. 30)

Siôn Elwyn

Mae Siôn yn byw yng Nghaernarfon ac yn Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd. Mae'n arbenigo yng ngramadeg y Gymraeg ac yn ymddiddori mewn cerddoriaeth o bob math ac yn hanes Cymru a'r tu hwnt. (adolygydd)

Judith Musker Turner
@MuskerTurner

Bardd ac arlunydd tecstilau o Ffair Rhos. Myfyriwr MA Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'n gweithio i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru ac yn aelod newydd o Gywion Cranogwen. (adolygydd)

Siôn Hywyn

Cyn-fyfyriwr Hanes sydd bellach wedi dychwelyd i fyw i'r Groeslon ger Caernarfon. Rhostiwr coffi a barman o fri sy'n hoff o ddarllen, cerddoriaeth, cwrw a cherdded. (adolygydd)

Gwen Saunders Jones
@gwensaunders85

Awdures a chyfieithydd gyda PhD o Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Diddordeb mewn barddoni, adolygu cyfrolau Cymraeg a barddoniaeth Gymraeg gan ferched, ac yn gyfrannwr rheolaidd i sawl cyhoeddiad a rhaglen radio. Awdur *Alis ferch Gruffudd a'r Traddodiad Barddol Benywaidd*. (adolygydd)

Elis Dafydd
@elisdafydd

Mae Elis Dafydd yn fyfyriwr PhD yn Ysgol y Gymraeg Bangor, yn ymchwilio i waith John Rowlands. Cyhoeddodd gyfrol o gerddi, *Chwilio am dân*, yn 2016, a chydolygodd gyfrol o erthyglau ar ganu gwleidyddol, *Rhywbeth i'w Ddweud*, gyda Marged Tudur yn 2017. (adolygydd)

Cain Muse

Mae Cain yn fyfyrwraig sydd yn ei hail flwyddyn yn astudio Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Huddersfield. Mae ei diddordebau yn cynnwys pobi tarteni ffrwythau, gweu, a mestrolï'r *viola de gamba*. (adolygydd)

Gareth Evans Jones
@GEvansJones

Mae Gareth yn byw yn Nhraeth Bychan ger Marian-glas, Ynys Môn, ac mae'n ddarlithydd Athroniaeth a Chrefydd yn Ysgol Hanes, Athroniaeth, a Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Bangor. Yn ddiweddar, cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf, sef nofel o'r enw *Eira Llwyd*. (adolygydd)

Llŷr Titus (Gol.)

Awdur a dramodydd, myfyriwr PhD yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor ac un o sylfaenwyr Cwmi'r Tebot, cwmni theatr cymunedol yn Llŷn.

Grug Muse (Gol.)
@Elan_Grug

Bardd, beiciwr, blogiwr. Myfyriwr ymchwil yn adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Cyhoeddwyd ei chyfrol gyntaf o gerddi, *Ar Ddisberod*, y llynedd.

Iestyn Tyne (Gol.)
@iestyn_tyne


Llenor, cerddor ac artist o Ben Llŷn yn wreiddiol, ond sydd bellach yn byw yng Nghaernarfon ar ôl cyfnod yn Aberystwyth. Mae erbyn hyn yn gweithio fel chyfieithydd rhan amser. Cyhoeddwyd ei ail gyfrol o gerddi, *ar adain*, eleni.

! A D O L Y G W Y R !

DRAMÂU / NOFELAU / BARDDONIAETH
CELF / CERDDORIAETH / FFILM

Awydd dweud eich dweud yn ddi-flewyn ar dafod am gynnyrch newydd Cymraeg?
Rydym wastad yn chwilio am adolygwyr - cysylltwch â golygyddion *Y Stamp*:

golygyddion.ystamp@gmail.com




**cant a mil
o lyfrau**


100 Whitchurch Road,
Mynydd Bychan,
Caerdydd CF14 3LY
029 2021 2474
jo@cantamilvintage.com

Dewis ardderchog o
lyfrau newydd ac ail-law!
cantamilvintage.com

awen CYF
meirion

*yn cymerodd rhann ers deyrain
mlynedd a mwy.*

01678 520658
25 Stryd Fawr, Y Bala
siop@awenmeirion.com



- llyfrau
- disgiau
- cardiau
- crysau 'cowbois'
- cyflenwyr ysgolion
- a llyfrgelloedd
- gwasanaeth
- post byd-eang

Cyrsgiau Tŷ Newydd 2019

- 23 Chwefror – Rhyddiaith: Cychwyn Arni gyda Guto Dafydd
- 2 Mawrth – Rhyddiaith: Dal Ati gydag Angharad Price
- 9 Mawrth – Ysgrifennu i Blant gyda Bethan Gwanas
- 13 Ebrill – Rhyddiaith: Mireinio Gwaith gyda Manon Rhys
- 27 Ebrill – Ysgrifennu Cerddi gydag Ifor ap Glyn
- 11 Mai – Straeon Byrion gyda Manon Steffan Ros
- 13 - 17 Mai – Cynganeddu gyda Peredur Lynch a Karen Owen
- 8 Mehefin – Ysgrifennu Nofel gyda Rhian Cadwaladr

Am ragor o wybodaeth, ac i archebu eich lle, ewch i:
www.tynewydd.cymru

Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd, LL52 0LW
01766 522 811 / tynewydd@llynyddiaethcymru.org

DYMA LE GWAG

BETH AM EI LENWI Â HYSBYSEB?

CYSYLLTWCH Â NI – Y CYNTAF I'R
SWYDDFA BOST GAIFF STAMP.

[@ystampus](https://twitter.com/ystampus)









